# TELERAU AC AMODAU CNC AM WASANAETHAU

## AMODAU CYFFREDINOL


| | | |
|---|---|---|
| 1. | DEHONGLIAD | 2 |
| 2. | BLAENORIAETH | 3 |
| 3. | HYD | 3 |
| 4. | RHWYMEDIGAETHAU'R CONTRACTWR | 3 |
| 5. | ANFONEBAU, TALIADAU, COSTAU A THRETH | 4 |
| 6. | GWARANTAU A HAERIADAU | 6 |
| 7. | HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL | 7 |
| 8. | NEWID GOFYNIAD | 9 |
| 9. | GWRTHDARO BUDDIANNAU | 9 |
| 10. | LLWGRWOBRYWO A LLYGREDIGAETH | 9 |
| 11. | CYDRADDOLDEB A CHYFLE CYFARTAL | 10 |
| 12. | DATA CNC | 11 |
| 13. | DIOGELU DATA | 12 |
| 14. | CYFRINACHEDD | 15 |
| 15. | RHYDDID GWYBODAETH A'R RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL | 18 |
| 16. | DIOGELWCH | 18 |
| 17. | TERFYNU | 20 |
| 18. | CANLYNIADAU TERFYNU | 22 |
| 19. | RHEOLIADAU CYFLOGAETH | 22 |
| 20. | ATEBOLRWYDD AC YSWIRIANT | 24 |
| 21. | CYFYNGU AR ATEBOLRWYDD | 24 |
| 22. | ASIEINIO, IS-GONTRACTWR A CHYFLENWYR | 25 |
| 23. | RHWYMEDIGAETHAU AMGYLCHEDDOL | 26 |
| 24. | TANAU | 27 |
| 25. | CARAFANAU AC ATI | 27 |
| 26. | MYNEDIAD, SAFLEOEDD A DEUNYDDIAU | 27 |
| 27. | ARCHWILIO | 29 |
| 28. | HAWLILDIAD | 30 |
| 29. | TORADWYEDD | 30 |
| 30. | FORCE MAJEURE | 30 |
| 31. | TWYLL | 31 |
| 32. | ADENNILL SYMIAU SY'N DDYLADWY | 31 |
| 33. | CYHOEDDIADAU | 31 |
| 34. | DEDDF CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD-BARTÏON) 1999 | 31 |

| | | |
|---|---|---|
| **35.** | **DATRYS ANGHYDFOD** | **31** |
| **36.** | **Y CONTRACT CYFAN** | **32** |
| **37.** | **CWMPAS Y CONTRACT** | **32** |
| **38.** | **RHYBUDD** | **32** |
| **39.** | **CYFRAITH AC AWDURDODAETH** | **33** |
| **40.** | **Y GYMRAEG** | **33** |

**ATODLEN 1 DIFFINIADAU** **34**

**ATODLEN 2 AMODAU PENODOL CONTRACT AR GYFER PRYNU NWYDDAU** **40**

**ATODLEN 3 PROSESU DATA PERSONOL** **48**

## 1. DEHONGLIAD

1.1 Mae i'r telerau a'r ymadroddion a nodir yn Atodlen 1 yr ystyron a briodolir iddynt yma.

1.2 Ni fydd penawdau amodau a pharagraffau yn effeithio ar y dehongliad o'r Contract hwn.

1.3 Mae **person** yn cynnwys person naturiol, corff corfforaethol neu anghorfforedig (pa un a oes iddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio) a chynrychiolwyr personol ac olynwyr y person hwnnw neu aseineion a ganiateir.

1.4 Bydd cyfeiriad at **gwmni** yn cynnwys unrhyw gwmni, corfforaeth neu gorff corfforaethol arall, ble a sut bynnag y cafodd ei gorffori neu'i sefydlu.

1.5 Bydd geiriau yn eu ffurf unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb.

1.6 Bydd cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ryw arall.

1.7 Bydd cyfeiriad at unrhyw barti yn cynnwys cynrychiolwyr personol ac olynwyr y parti hwnnw neu aseineion a ganiateir.

1.8 Mae cyfeiriad at statud, darpariaeth statudol neu is-ddeddfwriaeth yn gyfeiriad ato neu ati fel y mae mewn grym ar unrhyw adeg, gan ystyried unrhyw ddiwygio neu ailddeddfu ac mae'n cynnwys unrhyw statud, darpariaeth statudol neu is-ddeddfwriaeth y mae'n ei diwygio neu'i hailddeddfu.

1.9 Bydd cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno.

1.10 Mae cyfeiriad at **ysgrifennu** neu **ysgrifenedig** yn cynnwys ffacsiau ond nid e-bost.

1.11 Mae cyfeiriadau at amodau, cymalau neu baragraffau yn cyfeirio at amodau'r Contract a pharagraffau'r Atodlenni.

1.12 Caiff unrhyw gymal a gyflwynir gan y termau **yn cynnwys, gan gynnwys, yn arbennig** neu ymadrodd tebyg eu dehongli fel un enghreifftiol ac ni fydd yn cyfyngu ar ystyr y geiriau sy'n rhagflaenu'r termau hynny.

2. **BLAENORIAETH**

2.1 Os bydd gwrthdaro rhwng y Gorchymyn Contract, yr Amodau Cyffredinol, yr Amodau Contract Penodol neu'r Amodau Arbennig, a dim ond yn ôl graddau unrhyw wrthdaro, rhaid datrys y gwrthdaro yn unol â'r drefn flaenoriaeth isod:

(a) yr Amodau Arbennig;

(b) yr Amodau Contract Penodol;

(c) yr Amodau Cyffredinol;

(d) y Gorchymyn Contract (sydd at ddibenion amod 2 yma yn eithrio unrhyw Amodau Arbennig sy'n cael blaenoriaeth ar sail amod 2.1(a));

(e) unrhyw ddogfen arall y cyfeirir ati yn y Contract.

2.2 Oni chytunir yn ffurfiol, ni fydd dogfen a gaiff ei hamrywio yn unol ag amod 8 yn cael blaenoriaeth uwch na'r hyn a nodwyd yma.

2.3 Drafftiwyd y Contract hwn yn yr iaith Saesneg. Os caiff y Contract hwn ei gyfieithu i unrhyw iaith arall, y fersiwn Saesneg fydd yr un awdurdodol.

3. **HYD**

3.1 Daw'r Contract i rym ar y Dyddiad Cychwyn a daw i ben yn awtomatig am hanner nos ar ddyddiad olaf y Cyfnod Contract a bennwyd yn y Gorchymyn Contract, yn amodol ar derfynu cynharach yn unol â thelerau'r Contract neu ar derfynu cyfreithlon fel arall.

3.2 Gall CNC, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Contractwr, ymestyn y Contract am gyfnod pellach hyd at y dyddiad a bennwyd yn y Gorchymyn Contract. Bydd darpariaethau'r Contract hwn yn gymwys yn ystod unrhyw gyfnod estynedig o'r fath ar ei hyd.

4. **RHWYMEDIGAETHAU'R CONTRACTWR**

4.1 Rhaid i'r Contractwr gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract yn unol â'r telerau a'r amodau a nodwyd yn y Contract a rhaid iddo gydymffurfio a chydweithredu ag

unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddir gan CNC neu'r Goruchwyliwr Contract.

4.2 Cymerir bod y Contractwr wedi ei fodloni ei hun ynglŷn â chwmpas, maint a lleoliad y gwaith sydd i gael ei gyflawni o dan y Contract hwn.

4.3 Oni bai fod y Gorchymyn Contract yn nodi'n benodol fel arall, bydd y Contractwr yn gyfrifol ar ei gost a'i draul ei hun am sefydlu ei ffynonellau ei hun i gyflenwi unrhyw nwyddau, cyfarpar a deunyddiau ac am ddarparu'r holl Staff angenrheidiol sy'n ofynnol yn gysylltiedig â rheoli'r Contract a chyflawni'r Contract. Ni chaiff y Contractwr osod, nac achosi i eraill osod, unrhyw archebion gyda chyflenwyr na mynd i ddyled fel arall yn enw CNC nac unrhyw un o gynrychiolwyr CNC.

4.4 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Gofynion Iechyd a Diogelwch ac am sicrhau bod yr holl rwymedigaethau yn cael eu cyflawni yn unol â'r gofynion hynny.

4.5 Rhaid i'r Contractwr sicrhau, fel rhwymedigaeth barhaus gydol Cyfnod y Contract, ei fod yn defnyddio'r fersiynau diweddaraf o ddiffiniadau gwrthfeirysol sydd ar gael, a gwirio am unrhyw feddalwedd faleisus a'i dileu.

4.6 Wrth gyflawni'r Gwasanaethau, rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â gofynion unrhyw ganllawiau llywodraeth ynglŷn â pholisïau trin data a diogelwch y bydd CNC yn hysbysu'r Contractwr ohonynt o bryd i'w gilydd a rhaid iddo ddarparu hyfforddiant ar sail barhaus i'r holl Staff sy'n cael eu cyflogi neu'u hymrwymo i ddarparu'r Gwasanaethau yn unol ag unrhyw bolisi neu gynllun diogelwch sydd ar waith.

5. **ANFONEBAU, TALIADAU, COSTAU A THRETH**

5.1 Ond nodir yn wahanol yn y Gorchymyn Contract, bydd CNC yn ymdrechu i dalu unrhyw symiau diddadl sy'n ddyladwy i'r Contractwr yn unol â'r Pris Contract o fewn 30 diwrnod i anfonebau, sydd i'w cyflwyno'n fisol ar ddiwedd y cyfnod, am waith a gwblhawyd mewn modd sy'n bodloni CNC, ddod i law ac y cytunir arnynt.

5.2 Rhaid i unrhyw anfonebau a gyflwynir gan y Contractwr gynnwys y rhif archeb brynu a ddarparwyd gan CNC, i'w fynegi mewn sterling, cynnwys pob cyfeirnod priodol, a rhoi dadansoddiad manwl o'r Gwasanaethau, a rhaid cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol gan CNC i gadarnhau'r anfoneb gyda hi – a bydd ar ffurf electronig (sy'n cyd-fynd â system CNC) fel sy'n ofynnol gan adran 67 o Ddeddf Caffael 2023.

5.3 Ni cheir codi unrhyw orbenion o eiddo'r Contractwr ar CNC ac ni fyddant yn daladwy ganddo onid yw hynny wedi'i nodi'n benodol yn y Gorchymyn Contract. Bydd gorbenion yn cynnwys, heb gyfyngiad, cyfleusterau, cyfleustodau, yswiriant, treth, gorbenion prif swyddfa, costau staff anuniongyrchol a chostau eraill na ellir eu priodoli'n benodol ac yn uniongyrchol i ddarparu'r Gwasanaethau yn unig.

5.4 Dim ond lle mae treuliau wedi cael eu nodi fel rhai y ceir eu hawlio'n ôl yn y Gorchymyn Contract, eu bod wedi'u dangos yn glir, eu hategu â derbynebion gwreiddiol ac y cytunwyd arnynt ymlaen llaw gyda Chynrychiolydd CNC, y gall y Contractwr eu hawlio.

5.5 Rhaid cyflwyno anfonebau i CNC yn y cyfeiriad e-bost neu'r gweinydd electonig a bennir (os o gwbl) yn y Gorchymyn Contract neu'r cyfryw gyfeiriad neu weinydd arall ag yr hysbysir y Contractwr ohono o bryd i'w gilydd gan CNC.

5.6 Rhaid dangos treth, lle mae'n gymwys, ar wahân ar bob anfoneb fel tâl ychwanegol net-yn-unig.

5.7 Gall CNC leihau'r taliad mewn perthynas ag unrhyw Wasanaethau y mae'r Contractwr un ai wedi methu eu darparu neu wedi'u darparu'n annigonol, heb ragfarn i unrhyw hawliau na rhwymedïau sy'n perthyn i CNC.

5.8 Gall CNC ddidynnu a dal yn ôl o unrhyw swm sy'n ddyladwy i'r Contractwr o dan y Contract hwn unrhyw swm o arian sy'n ddyladwy gan y Contractwr i CNC pa un a yw'n ddyladwy o dan y Contract hwn neu fel arall.

5.9 O fewn 14 diwrnod i gael cais gan CNC, rhaid i'r Contractwr ddarparu adroddiad ar yr holl gostau a threuliau y mae wedi'u hwynebu ac sydd i'w hadfer oddi wrth CNC o dan y Contract. Rhaid i'r adroddiad gynnwys digon o wybodaeth fel bod modd deall diben costau a threuliau o'r fath ac adnabod pwy oedd y derbynnydd. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys costau a threuliau nad ydynt wedi'u talu eto gan y Contractwr ond y mae'n atebol o dan gytundeb i'w talu.

5.10 Er y rhwymedigaethau i ddarparu adroddiadau sydd wedi'u nodi yn amod 5.9, rhaid i'r Contractwr hysbysu CNC cyn iddo ymrwymo drwy gytundeb i fynd i unrhyw gostau neu dreuliau sylweddol mewn perthynas â'r Contract hwn. Yn y cymal hwn bydd costau sylweddol yn golygu unrhyw gost neu draul sy'n fwy na 5 y cant o gyfanswm y Pris Contract.

5.11 Bydd unrhyw dalu hwyr gan CNC ar anfonebau diddadl yn ddarostyngedig i log ar gyfradd o uchafswm o 4 y cant uwchlaw cyfradd sail Banc Lloegr ar y pryd.

5.12 Pan fo'r Contractwr yn cyflogi is-gontractwr neu gyflenwr i gynorthwyo i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract, rhaid i'r Contractwr sicrhau bod yr is-gontract yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i dalu'r holl symiau sy'n ddyledus gan y Contractwr i'r is-gontractwr o fewn dim mwy na 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys.

6. **GWARANTAU A HAERIADAU**

6.1 Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn haeru:

6.1.1 bod ganddo'r capasiti a'r awdurdod llawn a'r holl ganiatadau angenrheidiol i ymrwymo i'r contract a'i gyflawni a bod y Contract yn cael ei weithredu gan gynrychiolydd o'r Contractwr sydd ag awdurdod priodol;

6.1.2 y bydd holl rwymedigaethau'r Contractwr drwy hyn yn cael eu cyflawni gan staff sydd â phrofiad, cymwysterau a hyfforddiant priodol gyda phob medrusrwydd, gofal, gallu a diwydrwydd gofynnol yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i Arferion Da'r Diwydiant ac yn unol â'i weithdrefnau mewnol sefydledig ei hun;

6.1.3 y caiff yr holl Staff a ddefnyddir i ddarparu'r Services eu fetio yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant a, lle mae hynny'n gymwys, y byddant yn ddarostyngedig i bolisi chwiliad cyflogaeth CNC neu bolisi cyfatebol ac unrhyw bolisi diogelwch yr hysbysir y Contractwr ohono o bryd i'w gilydd;

6.1.4 y bydd y Gwasanaethau yn foddhaol o fewn rheswm i CNC ac yn cyflawni unrhyw ofynion yr hysbyswyd y Contractwr ohonynt gan CNC;

6.1.5 y bydd y Gwasanaethau yn cyfateb i ofynion y Gorchymyn Contract ac unrhyw fanyleb arall yn y Contract;

6.1.6 y bydd y Gwasanaethau yn cydymffurfio ym mhob ffordd â gofynion unrhyw Gyfraith gymwys a fydd mewn grym ar y pryd a bod ganddo, ac y bydd yn parhau i ddal, yr holl drwyddedau, caniatadau, cydsyniadau a chymeradwyaethau rheoleiddio (os oes rhai) gan unrhyw Gorff Rheoleiddio sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Contractwr o dan y Contract;

6.1.7 nad yw heb dalu unrhyw drethi dyladwy a thaladwy nac heb ffeilio, cofrestru na chofnodi unrhyw ddogfen o dan unrhyw rwymedigaeth neu ofyniad cyfreithiol neu statudol lle gallai diffyg gael effaith niweidiol faterol ar ei fusnes, ei asedau neu'i gyflwr ariannol neu'i allu i gadw at neu gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract;

6.1.8 nad yw ef (ac nid yw unrhyw is-gwmni, is-gontractwr na chwmni neu sefydliad cysylltiedig) ac nad yw eu cyfarwyddwyr, partneriaid neu staff uwch eraill, nac unrhyw berson cysylltiedig arall, wedi cyflawni unrhyw un o'r troseddau a allai fod yn destun gwaharddiad gorfodol fel y nodir yn Atodlen 6 i Ddeddf

Caffael 2023.

7. **HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL**

7.1 Bydd unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw wybodaeth neu ddeunydd a gyflwynir gan un Parti i'r Parti arall yn unol â'r Contract hwn yn parhau'n eiddo'r Parti a oedd yn berchen ar yr Hawliau Eiddo Deallusol hynny cyn eu cyflwyno felly.

7.2 Mae'r Contractwr yn rhoi trwydded barhaol anghyfyngol i CNC i'r Hawliau Presennol dim ond er mwyn i CNC wneud defnydd o'r Gwasanaethau a'r Hawliau Canlyniadol a chaniatáu i eraill wneud defnydd ohonynt.

7.3 Mae'r Contractwr yn addo ei fod wedi adnabod ac wedi datgan wrth CNC unrhyw ddata, dogfennau neu wybodaeth ymarferol arbennig sy'n eiddo i'r Contractwr neu'i is-gontractwyr, neu y mae ganddynt hawliau iddynt, yn union cyn cychwyn y Contract lle gellid barnu'n rhesymol eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y Gwasanaethau sydd i gael eu defnyddio. Mae'r Contractwr yn addo ymhellach i gymryd, ar gais CNC, bob cam rhesymol sy'n angenrheidiol i ddarparu mynediad at ddata a dogfennau o'r fath yn ôl y gofyn i alluogi CNC i ddefnyddio'r Gwasanaethau.

7.4 Mae'r Contractwr drwy hyn yn aseinio i CNC bob Hawl Ganlyniadol a phob deunydd sy'n ymgorffori hawliau o'r fath i'r radd eithaf a ganiateir gan y gyfraith a bydd yn cwblhau unrhyw ddogfennau ac yn gwneud yr holl gyfryw bethau ag a all fod yn ofynnol gan CNC i dystio i'r cyfryw aseinio.

7.5 Mae'r Contractwr yn addo:

7.5.1 hysbysu CNC yn ysgrifenedig o fanylion llawn unrhyw Hawliau Canlyniadol yn ddiymdroi ar ôl iddynt gael eu creu, ynghyd â manylion llawn y canlynol;

(a) unrhyw ddata, dulliau neu wybodaeth a grëwyd gan y Contractwr (na chânt eu disgrifio, na'u cynnwys fel arall, yn y Gwasanaethau);

(b) gwell ffyrdd o brosesu a dadansoddi data neu wybodaeth (na chânt eu disgrifio, na'u cynnwys fel arall, yn y Gwasanaethau);

(c) unrhyw wallau neu gamgymeriadau a nodir mewn unrhyw wybodaeth neu ddata a gyflenwir gan CNC; neu

(d) unrhyw ddyfeisiadau posib y gellid godi patent arnynt sy'n deillio o'r Contract.

Os bydd y Contractwr yn credu nad oes dim i hysbysu CNC ohono dylid cadarnhau hyn yn ysgrifenedig cyn cyflwyno'r anfoneb derfynol.

7.5.2 pa pryd bynnag y gofynnir iddo gan CNC i wneud hynny a beth bynnag pan derfynir Ymrwymiad, danfon at CNC yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a gafodd gan CNC o dan delerau'r Contract hwn sydd yn ei feddiant, ei ofal neu'i bŵer.

7.5.3 ei fod wedi adnabod ac wedi datgan wrth CNC unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sy'n eiddo i'r Contractwr neu'i is-gontractwyr, neu y mae ganddynt hawliau iddynt, yn union cyn cychwyn y Contract, y gallai'r Contract eu gwella neu'u datblygu, a hynny mewn digon o fanylder i sicrhau bod modd gwahaniaethu rhyngddynt a'r rhai a grëir wrth gyflawni'r Contract hwn.

7.6 Heb ganiatâd ymlaen llaw gan CNC, rhaid i'r Contractwr beidio (ac eithrio lle mae hynny'n angenrheidiol er gweithredu'r Contract) â defnyddio na datgelu Hawliau Eiddo Deallusol, nac unrhyw wybodaeth arall (pa un a yw'n berthnasol i'r Contract ai peidio) y gallai'r Contractwr ei chael wrth gyflawni'r Contract ac eithrio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, a rhaid iddo drefnu na fydd Staff a chyflenwyr y Contractwr yn gwneud hynny chwaith.

7.7 Mae'r Contractwr yn ildio, neu bydd yn trefnu ildio, unrhyw hawliau moesol yn yr Hawliau Canlyniadol, y mae ganddo yn awr neu y gallai fod ganddo ar ryw adeg yn y dyfodol hawl iddynt o dan Bennod IV o Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol tebyg mewn unrhyw awdurdodaeth, yn cynnwys (ond heb gyfyngiadau) yr hawl i gael ei adnabod, yr hawl i uniondeb a'r hawl yn erbyn priodoli anwir, ac yn cytuno i beidio â sefydlu, cefnogi na chynnal na chaniatáu unrhyw gam na hawliad i'r perwyl bod unrhyw driniaeth o Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath neu ddeunyddiau eraill, unrhyw fanteisio arnynt neu ddefnydd ohonynt, yn torri ar hawliau moesol y Contractwr.

7.8 Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn haeru na fydd unrhyw ddeunyddiau, cynnyrch, gwybodaeth na gwasanaeth a gyflenwir neu a drwyddedir gan y Contractwr o dan y Contract hwn yn torri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol o eiddo unrhyw drydydd parti a bydd y Contractwr, yn ystod Cyfnod y Contract ac wedi hynny, pan wneir cais ysgrifenedig, yn indemnio CNC, ac yn parhau i'w indemnio, rhag pob cam, achos, hawliad, archeb, colled, tâl, iawndal, cost a thraul a phob atebolrwydd arall y gallai CNC ei dioddef neu ei hwynebu o ganlyniad i dorri'r cymal hwn mewn unrhyw ffordd neu mewn cysylltiad â hynny, ac eithrio lle mae a wnelo'r hawliad â dyluniadau a

ddarparwyd gan CNC neu ddefnyddio data a gyflenwyd gan CNC, nad oes angen i'r Contractwr ei wirio o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Contract hwn.

7.9 Bydd clawr pob adroddiad neu luniad sy'n rhan o'r Gwasanaethau yn cynnwys datganiad © Cyfoeth Naturiol Cymru a'r dyddiad creu. Rhaid i unrhyw fapiau a gynhyrchir gan y Contractwr yn ystod y Contract, sy'n cynnwys mapiau sylfaenol Arolwg Ordnans a ddarparwyd gan CNC, gynnwys y datganiad 'Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (blwyddyn gyflenwi) Arolwg Ordnans 100019741'.

8. **NEWID GOFYNIAD**

8.1 Ni fydd grym i unrhyw amrywiad i'r Contract nac i unrhyw ddogfen y cyfeirir ati ynddo ond bai y cytunir ar gostau'r amrywiad a bod manylion yr amrywiad yn ysgrifenedig ac wedi'u llofnodi gan y partïon.

9. **GWRTHDARO BUDDIANNAU**

9.1 Mae'r Contractwr yn cadarnhau nad yw'r Contractwr nac unrhyw un o'i Staff na'i gyflenwyr, ar ddyddiad y Contract, yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle mae neu y lle gallai fod gwrthdaro gwirioneddol, neu wrthdaro posib, rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y Contractwr neu'r cyfryw bersonau a'r dyletswyddau sy'n ddyladwy i CNC o dan ddarpariaethau'r Contract ac y bydd yn cymryd pob cam priodol i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro o'r fath gydol Cyfnod y Contract. Bydd y Contractwr yn datgelu manylion llawn unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath a allai godi i CNC.

9.2 Bydd darpariaethau'r amod 9 hwn yn gymwys tra pery'r Contract ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo gael ei derfynu.

10. **LLWGRWOBRYWO A LLYGREDIGAETH**

10.1 Rhaid i'r Contractwr:

10.1.1 cydymffurfio â'r holl ddeddfau, statudau, rheoliadau a chodau yn ymwneud ag atal llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 (**Gofynion Perthnasol**);

10.1.2 peidio ag ymwneud ag unrhyw weithgaredd, arfer neu ymddygiad a allai fod yn drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 6 o Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 pe bai'r cyfryw weithgaredd, arfer neu ymddygiad wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig;

10.1.3 bod â'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun ar waith, a'u cynnal gydol tymor y Contract hwn, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i weithdrefnau digonol o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, i sicrhau cydymffurfio â'r Gofynion Perthnasol ac amod 10.1.1, a bydd yn eu gorfodi lle mae rhaid;

10.1.4 rhoi gwybod yn ddiymdroi i CNC am unrhyw gais neu archeb am unrhyw fantais ariannol nad yw'n ddyladwy neu fantais o unrhyw fath arall a ddaeth i'r Contractwr mewn perthynas â chyflawni'r Contract hwn;

10.1.5 pan ofynnir yn rhesymol iddo gan CNC i wneud hynny, tystio'n ysgrifenedig i CNC bod y Contractwr a phob person cysylltiedig o dan amod 10.2 wedi cydymffurfio â'r cymal hwn, a bod yr ardystiad wedi'i lofnodi gan un o swyddogion y Contractwr. Rhaid i'r Contractwr ddarparu'r cyfryw dystiolaeth arall o gydymffurfio ag y gwnaiff CNC ofyn amdani'n rhesymol.

10.2 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod unrhyw berson yn gysylltiedig â'r Contractwr sy'n cyflawni Gwasanaethau neu'n darparu Nwyddau mewn perthynas â'r Contract hwn yn gwneud hynny ar sail contract ysgrifenedig yn unig, a bod y contract hwnnw'n sicrhau gan y cyfryw berson ac yn gosod arno delerau sy'n cyfateb i'r rhai a osodir ar y Contractwr gan yr amod 10 hwn (**Telerau Perthnasol**). Bydd y Contractwr yn gyfrifol am sicrhau bod personau o'r fath yn cadw at y Telerau Perthnasol ac yn eu cyflawni, a bydd yn uniongyrchol atebol i CNC am dorri unrhyw rai o'r Telerau Perthnasol gan bersonau o'r fath.

10.3 Bydd torri'r amod 10 hwn yn cael ei ystyried yn dor-amod perthnasol o'r Contract hwn.

## 11. CYDRADDOLDEB A CHYFLE CYFARTAL

11.1 Rhaid i'r Contractwr beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn erbyn unrhyw berson, a rhaid iddo drefnu na fydd ei Staff yn gwneud hynny chwaith.

11.2 Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â pholisi cyfle cyfartal CNC (fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd), a rhaid iddo drefnu na fydd ei Staff yn gwneud hynny chwaith.

11.3 Pe bai unrhyw Lys neu dribiwnlys yn dyfarnu bod y Contractwr neu unrhyw rai o'r Staff a gyflogir gan y Contractwr wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn ystod tymor y Contract, neu os ceir canfyddiad gwrthwynebus mewn unrhyw ymchwiliad ffurfiol gan gorff swyddogol dros yr un cyfnod, rhaid i'r Contractwr hysbysu CNC o hynny'n ysgrifenedig yn ddiymdroi a rhaid iddo gymryd pob cam angenrheidiol i atal y

gwahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto. Os gwneir cais am hynny, rhaid i'r Contractwr ddarparu manylion ysgrifenedig i CNC o'r holl gamau a gymerwyd o dan yr amod hwn.

12. **DATA CNC**

12.1 Rhaid i'r Contractwr beidio â dileu na thynnu unrhyw hysbysiadau perchenogol sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw ddata o eiddo CNC neu mewn cysylltiad ag ef.

12.2 Rhaid i'r Contractwr beidio â storio, copïo na datgelu na defnyddio unrhyw Ddata o eiddo CNC ac eithrio fel sy'n angenrheidiol er mwyn i'r Contractwr gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn neu fel yr awdurdodir ef yn benodol fel arall yn ysgrifenedig gan CNC. Dylai unrhyw Ddata CNC a gyflenwir i'r Contractwr gael ei ddychwelyd neu'i ddinistrio pan derfynir y Contract hwn.

12.3 I'r graddau y mae Data CNC yn cael ei ddal a/neu ei brosesu gan y Contractwr, rhaid i'r Contractwr gyflenwi'r Data CNC hwnnw i CNC fel y gofynnir gan CNC yn y fformat a bennir yn y cais.

12.4 Rhaid i'r Contractwr gymryd cyfrifoldeb am gynnal cysegredigrwydd Data CNC ac atal Data CNC rhag cael ei lygru na'i golli.

12.5 Bydd Data CNC ac unrhyw ddata o eiddo trydydd parti a roddir gan CNC i'r Contractwr yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng trwydded. Mae'r Contractwr yn cytuno i gadw at yr holl delerau ac amodau sy'n gymwys i'r drwydded berthnasol ac i sicrhau bod yr holl gynnyrch a gyhoeddir yn cael ei anodi â'r gydnabyddiaeth neu'r datganiad hawlfraint cywir fel y darperir yn y drwydded.

12.6 Rhaid i'r Contractwr gadw copïau wrth gefn diogel o holl Ddata CNC a rhaid iddo sicrhau bod copïau wrth gefn cyfredol yn cael eu storio oddi ar y safle ac yn unol ag unrhyw gynllun parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb sy'n weithredol gan CNC neu gynllun o'r fath y mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr ei weithredu. Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod copïau wrth gefn o'r fath ar gael i CNC bob amser os gwneir cais a'u bod yn cael eu danfon i CNC bob 3 mis fan bellaf neu fel y gofynnir gan CNC.

12.7 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod unrhyw system y mae'r Contractwr yn dal unrhyw Ddata CNC arni, yn cynnwys data wrth gefn, yn system ddiogel sy'n cydymffurfio ag unrhyw bolisi diogelwch o eiddo CNC a bod ganddo fesurau technegol a threfniadol priodol ar waith i sicrhau bod y system honno'n ddiogel.

12.8 Os caiff Data CNC ei lygru, ei golli neu'i ddiraddio'n ddigonol o ganlyniad i Dor-amod y Contractwr fel nad oes modd ei ddefnyddio, gall CNC:

12.8.1 ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr (ar draul y Contractwr) adfer Data CNC neu drefnu iddo gael ei adfer i'r graddau ac yn unol â'r gofynion a bennir gan CNC; a/neu

12.8.2 adfer Data CNC ei hun neu drefnu iddo gael ei adfer a rhaid i'r Contractwr ad-dalu iddo unrhyw dreuliau rhesymol a wynebir wrth wneud hynny i'r graddau ac yn unol â'r gofynion a bennir gan CNC.

12.9 Os bydd y Contractwr ar unrhyw adeg yn amau neu fod ganddo reswm i gredu bod Data CNC wedi cael ei lygru, ei golli neu'i ddiraddio'n ddigonol mewn unrhyw ffordd am ryw reswm, neu y gallai hynny ddigwydd, yna rhaid i'r Contractwr hysbysu CNC ar unwaith a dweud wrth CNC pa gamau adfer y mae'r Contractwr yn bwriadu eu cymryd.

13. **DIOGELU DATA**

13.1 Bydd y ddau barti'n cydymffurfio â holl ofynion perthnasol deddfwriaeth diogelu data. Mae'r Cymal 13 hwn yn ogystal â, ac nid yw'n rhyddhau, yn diddymu nac yn disodli, rhwymedigaethau parti dan ddeddfwriaeth diogelu data.

13.2 Mae'r partïon yn cydnabod, at ddibenion deddfwriaeth diogelu data, mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheolwr y data a'r contractwr yw'r prosesydd data (lle mae rheolwr data a phrosesydd data'n meddu ar yr ystyron a ddiffinnir yn neddfwriaeth diogelu data).Mae Atodlen 3 yn nodi cwmpas, natur a diben prosesu gan y contractwr, hyd y prosesu, a'r mathau o ddata personol a chategorïau gwrthrych data.

13.3 Heb niwed i gyffredinoldeb Cymal 13.1, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n sicrhau bod ganddo'r holl ganiatadau a hysbysiadau priodol sydd eu hangen ar waith i alluogi'r trosglwyddiad cyfreithiol o ddata personol i'r contractwr am hyd a dibenion y contract hwn.

13.4 Heb niwed i gyffredinoldeb Cymal 13.1, bydd y contractwr, mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a broseswyd mewn cysylltiad â pherfformiad ei rwymedigaethau dan y contract hwn:

13.4.1 yn prosesu'r data personol hwnnw ar gyfarwyddyd ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig oni bai fod gofyn i'r contractwr brosesu data personol dan y cyfreithiau perthnasol. Lle mae'r contractwr yn dibynnu ar y cyfreithiau

perthnasol fel y sail ar gyfer prosesu data personol, bydd y contractwr yn dweud wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiymdroi am hyn cyn cyflawni'r prosesu sy'n ofynnol dan y cyfreithiau perthnasol oni bai fod y cyfreithiau perthnasol hynny'n atal y contractwr rhag dweud hyn wrth Cyfoeth Naturiol Cymru;

13.4.2 yn sicrhau bod ganddo'r mesurau technegol a sefydliadol ar waith, wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru, i ddiogelu yn erbyn achosion o brosesu data personol heb awdurdod neu'n anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol i ddata personol, sy'n briodol i'r niwed a allai gael ei beri oherwydd prosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon neu golled, dinistr neu ddifrod damweiniol a natur y data i'w ddiogelu, gan ystyried cyflwr datblygiad technolegol a chost rhoi unrhyw fesurau ar waith (gall y mesurau hynny gynnwys, lle y bo'n briodol, amgryptio data personol a'i wneud yn ddienw; sicrhau cyfrinachedd, dilysrwydd, argaeledd a gwydnwch ei systemau a'i wasanaethau; sicrhau y gall argaeledd a mynediad i ddata personol gael eu hadfer yn amserol ar ôl digwyddiad; ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol a fabwysiadir ganddo'n rheolaidd);

13.4.3 yn sicrhau bod yr holl bersonél sydd â mynediad i a/neu sy'n prosesu data personol wedi'u gorfodi i gadw'r data personol yn gyfrinachol ac nad ydynt yn prosesu data personol ac eithrio yn unol â'r contract hwn;

13.4.4 yn peidio â throsglwyddo unrhyw ddata personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni bai y ceir caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru a bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

(a) mae Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r contractwr wedi darparu'r dulliau diogelu priodol mewn perthynas â’r trosglwyddiad;

(b) mae gan wrthrych y data hawliau y gellir eu gorfodi a rhwymedi cyfreithiol effeithiol;

(c) mae'r contractwr yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan ddeddfwriaeth diogelu data drwy ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch i unrhyw ddata personol sy'n cael ei drosglwyddo; ac

(d) mae'r contractwr yn cydymffurfio â chyfarwyddyd rhesymol a roddwyd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru o ran prosesu'r data personol;

13.4.5 yn cynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ymateb i unrhyw gais gan

wrthrych data ac wrth sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan ddeddfwriaeth diogelu data o ran diogelwch, hysbysiadau o dorri diogelwch, asesiadau effaith, ac ymgynghoriadau ag awdurdodau neu reoleiddwyr goruchwyliol;

13.4.6 yn hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru heb oedi diangen wrth fod yn ymwybodol o dorri diogelwch data personol;

13.4.7 ar gyfarwyddyd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dileu neu'n dychwelyd data personol a chopïau ohono wrth derfynu'r contract oni bai fod gofyn storio'r data personol hwnnw dan y cyfreithiau perthnasol; ac

13.4.8 yn cynnal cofnodion a gwybodaeth lawn a chywir i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r Cymal 13 hwn ac yn galluogi archwiliadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu archwiliwr dynodedig Cyfoeth Naturiol Cymru.

13.4.9 yn unol â Chymal 13.4.10, yn dweud wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn syth os:

(a) yw'n derbyn cais am fynediad gan wrthrych data (neu gais am fynediad gan wrthrych data honedig);

(b) yw'n derbyn cais i gywiro, rhwystro neu ddileu unrhyw ddata personol;

(c) yw'n derbyn unrhyw gais, cwyn neu gyfathrebiad arall sy'n ymwneud â rhwymedigaethau'r naill barti neu'r llall dan ddeddfwriaeth diogelu data;

(ch) yw'n derbyn unrhyw gyfathrebiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddiol arall mewn cysylltiad â data personol wedi'i brosesu dan y contract hwn;

(d) yw'n derbyn cais gan unrhyw drydydd parti i ddatgelu data personol lle mae cydymffurfio â chais o'r fath yn ofynnol neu yr honnir ei fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith; neu

(dd) yw'n dod yn ymwybodol o achos o golli data.

13.4.10 Bydd rhwymedigaeth y contractwr i hysbysu dan Gymal 13.4.9 yn cynnwys darparu rhagor o wybodaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru mewn camau, wrth i fanylion ddod i law.

13.5 Cyn caniatáu i unrhyw is-brosesydd brosesu unrhyw ddata personol sy'n ymwneud â'r contract hwn, rhaid i'r contractwr wneud y canlynol:

(a) dweud wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifenedig am yr is-brosesydd a'r prosesu a fwriedir;

(b) cael caniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru;

(c) mynd i gytundeb ysgrifenedig gyda'r is-brosesydd sy'n rhoi effaith i'r telerau a nodir yn y Cymal 13 hwn fel eu bod yn gymwys i'r is- brosesydd; a

(ch) rhoi'r fath wybodaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr is- brosesydd fel sy'n rhesymol ofynnol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

13.6 Gall Cyfoeth Naturiol Cymru, ar unrhyw adeg heb roi llai na 30 niwrnod o rybudd, adolygu'r Cymal 13 hwn drwy:

(a) ei ddisodli ag unrhyw gymalau rheolwr i brosesydd safonol sy'n berthnasol neu delerau tebyg sy'n ffurfio rhan o gynllun ardystio cymwys (a fydd yn berthnasol wrth gael eu hatodi i'r contract hwn);neu

(b) ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

13.7 Bydd darpariaethau'r amod hwn yn gymwys yn ystod cyfnod y contract ac am gyfnod amhenodol wedi iddo ddod i ben neu'n cael ei derfynu.

14. **CYFRINACHEDD**

14.1 Rhaid i bob parti:

14.1.1 trin unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i'r parti arall fel gwybodaeth gyfrinachol a'i diogelu yn unol â hynny; a

14.1.2 peidio â datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i'r parti arall i unrhyw berson arall heb ganiatâd ysgrifenedig y parti arall ymlaen llaw, ac eithrio i'r cyfryw bersonau ac i'r cyfryw raddau ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Contract neu ac eithrio lle mae darpariaethau'r Contract yn dweud yn benodol y caniateir datgelu.

14.2 Rhaid i'r Contractwr gymryd yr holl ragofalon angenrheidiol i sicrhau bod yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a gaiff gan CNC o dan y Contract neu mewn perthynas ag ef:

14.2.1 yn cael ei rhoi i ddim ond y cyfryw aelodau o'i Staff a chynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol a gyflogir i'w gynghori mewn perthynas â'r Contract lle mae hynny'n hollol angenrheidiol er mwyn cyflawni'r contract, a hynny dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Contract;

14.2.2 yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac na chaiff ei datgelu (heb ganiatâd ysgrifenedig CNC ymlaen llaw) na'i defnyddio gan unrhyw Staff neu gyfryw gynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol ac eithrio i ddibenion y Contract;

a

14.2.3 bod ei Staff neu'i gynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol yn ymwybodol o rwymedigaethau cyfrinachedd y Contractwr o dan y Contract a'u bod yn llofnodi ymrwymiad cyfrinachedd ar yr un telerau cyn dechrau ar waith yn gysylltiedig â'r Contract.

14.3 Ni fydd yr amod 14 hwn yn gymwys i Wybodaeth Gyfrinachol:

14.3.1 sydd ar gael neu a fydd yn dod ar gael yn gyhoeddus (drwy ddull ar wahân i dorri unrhyw rai o'r ymrwymiadau cyfrinachedd); neu

14.3.2 a oedd yn hysbys i barti, heb gyfyngiad ynglŷn â'i datgelu, cyn i'r wybodaeth gael ei datgelu iddo gan y parti arall; neu

14.3.3 a dderbynnir oddi wrth drydydd parti a'i cafodd yn gyfreithlon ac nad yw o dan unrhyw rwymedigaeth sy'n cyfyngu ar ei datgelu; neu

14.3.4 y mae'n ofynnol ei datgelu gan y Gyfraith; neu

14.3.5 a gaiff ei datblygu'n annibynnol gan barti heb fynediad uniongyrchol nac anuniongyrchol at y wybodaeth a ddatgelwyd iddo gan y parti arall, na defnydd na gwybodaeth o'r wybodaeth honno.

14.4 Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn atal CNC rhag datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol y Contractwr:

14.4.1 i Lywodraeth Cymru neu unrhyw Awdurdod Contractio arall a fydd â hawl i ddatgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol ymhellach i'w adrannau eraill neu

Awdurdodau Contractio ar y sail ei bod yn gyfrinachol ac na chaniateir ei datgelu i unrhyw drydydd parti nad yw'r Awdurdod Contractio;

14.4.2 i unrhyw ymgynghorydd, contractwr neu berson arall a gyflogir gan CNC neu unrhyw berson at ddibenion adolygiad archwilio;

14.4.3 i'r diben o archwilio ac ardystio cyfrifon CNC neu lle mae'n ofynnol o dan unrhyw archwiliad i ganfod pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae CNC wedi defnyddio'i adnoddau.

14.5 Mae pob parti'n cadw'r holl hawliau yn ei Wybodaeth Gyfrinachol. Ni chaiff unrhyw hawliau na rhwymedigaethau yn gysylltiedig â Gwybodaeth Gyfrinachol parti eu rhoi i'r parti arall ac eithrio'r rhai a fynegir yn benodol yn y Contract hwn, ac ni ddylid cymryd bod y Contract hwn yn awgrymu hynny.

14.6 Pan derfynir y Contract hwn, rhaid i bob parti:

14.6.1 dychwelyd i'r parti arall yr holl ddogfennau a deunyddiau (ac unrhyw gopïau) sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu wedi'i seilio ar Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall;

14.6.2 dileu holl Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall oddi ar ei systemau cyfrifiadurol (i'r graddau sy'n bosib); a

14.6.3 ardystio yn ysgrifenedig i'r parti arall ei fod wedi cydymffurfio â gofynion yr amod hwn, ar yr amod y caiff parti derbyn gadw dogfennau a deunyddiau sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu wedi'u seilio ar Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall i'r graddau sy'n ofynnol gan y Gyfraith. Bydd darpariaethau'r amod hwn yn parhau'n gymwys i unrhyw ddogfennau a deunyddiau o'r fath a gedwir gan barti derbyn.

Ar yr amod na fydd yr amod 14.6 hwn yn gymwys i unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a ddarperir gan y Contractwr i CNC wrth gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn ac sy'n angenrheidiol er mwyn i CNC elwa o'r Gwasanaethau ar ôl y terfynu.

14.7 Ac eithrio fel y nodir yn benodol yn y Contract hwn, ni fydd unrhyw barti'n rhoi unrhyw warant na haeriad, penodol nac ymhlyg, ynglŷn â'i Wybodaeth Gyfrinachol.

14.8 Bydd darpariaethau'r amod hwn yn parhau'n gymwys ar ôl i'r Contract hwn derfynu.

15. **RHYDDID GWYBODAETH A'R RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL**

15.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod CNC yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a rhaid iddo gynorthwyo a chydweithredu â CNC (ar draul y Contractwr) i alluogi CNC i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

15.2 CNC fydd yn gyfrifol am benderfynu ar ei ddisgresiwn absoliwt pa un a yw unrhyw wybodaeth yn esempt rhag cael ei datgelu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu a yw i gael ei datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth ac ni chaiff y Contractwr o dan unrhyw amgylchiadau ymateb yn uniongyrchol i gais am wybodaeth onid awdurdodir ef yn benodol gan CNC i wneud hynny.

15.3 Wrth ymateb i gais am wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig â'r Contract (yn cynnwys ond heb ei chyfyngu i ddogfennau tendr, gwybodaeth gontractyddol ddilynol neu wybodaeth a gaiff ei dosbarthu'n gyfrinachol neu sensitif), bydd CNC, lle mae yn ei ddisgresiwn absoliwt yn ystyried hynny'n angenrheidiol, yn ymdrechu'n rhesymol i ymgynghori â'r Contractwr. Serch hyn mae'r Contractwr yn cydnabod y gall CNC ddatgelu gwybodaeth heb ymgynghori â'r Contractwr, neu ar ôl ymgynghori â'r Contractwr ar ôl ystyried ei farn.

15.4 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir yn ystod y Contract neu mewn perthynas â'r Contract yn cael ei chadw ar gyfer datgelu a rhaid iddo ddarparu'r holl gymorth angenrheidiol y gofynnir yn rhesymol amdano gan CNC i alluogi CNC i ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amser cydymffurfio a rhaid iddo ganiatáu i CNC archwilio'r cyfryw gofnodion fel y bydd yn gofyn o bryd i'w gilydd.

16. **DIOGELWCH**

16.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod CNC yn rhoi pwyslais mawr ar gyfrinachedd, cysegredigrwydd ac argaeledd gwybodaeth ac yn sgil hynny ar ddiogelwch safleoedd a diogelwch unrhyw systemau o eiddo'r Contractwr. Mae'r Contractwr hefyd yn cydnabod cyfrinachedd Data CNC.

16.2 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am ddiogelwch unrhyw systemau o'i eiddo ef a rhaid iddo bob amser ddarparu lefel o ddiogelwch sydd:

16.2.1 yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant a'r Gyfraith;

16.2.2 yn cydymffurfio ag unrhyw bolisi diogelwch o eiddo CNC neu unrhyw bolisi y mae CNC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr ei ddatblygu, ei weithredu a'i gynnal;

16.2.3 yn ymateb i unrhyw fygythiadau diogelwch penodol i unrhyw rai o systemau'r Contractwr; a

16.2.4 yn ymateb i unrhyw raddau eraill i unrhyw ofynion a chanllawiau diogelwch gwybodaeth cenedlaethol ag a gyhoeddir o bryd i'w gilydd.

16.3 Dylai'r Contractwr osgoi defnyddio cyfryngau symudol i storio Data CNC neu wybodaeth lle mae'n bosib. Os defnyddir cyfryngau symudol rhaid i'r Contractwr sicrhau:

16.3.1 bod y Data CNC neu'r wybodaeth a drosglwyddir i'r cyfryngau symudol y lleiafswm absoliwt sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Gwasanaethau, o ran y nifer o bobl y mae'r wybodaeth yn ymdrin â nhw a chwmpas y wybodaeth;

16.3.2 dylai'r cyfryngau symudol gael eu hamgryptio hyd at safon y cytunwyd arni a rhaid eu gwarchod â mecanwaith dilysu;

16.3.3 dylid cyfyngu hawliau defnyddwyr i drosglwyddo Data CNC i gyfryngau symudol yn gaeth i staff y mae hynny'n gwbl angenrheidiol iddynt.

16.4 Rhaid i'r Contractwr sicrhau, fel rhwymedigaeth barhaus gydol Cyfnod y Contract, ei fod yn defnyddio'r fersiynau diweddaraf o ddiffiniadau gwrthfeirysol sydd ar gael, a gwirio am unrhyw feddalwedd faleisus a'i dileu o'i systemau neu'r amgylchedd gweithredu.

16.5 Heb gyfyngu ar amodau 16.2 a 16.3, rhaid i'r Contractwr sicrhau bob amser bod y lefel o ddiogelwch a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau yn briodol er mwyn cynnal yr isod ar lefelau risg derbyniol (yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant ar gyfer sector cyhoeddus y DU):

16.5.1 colli cysegredigrwydd Data CNC;

16.5.2 colli cyfrinachedd Data CNC;

16.5.3 mynediad diawdurdod at Ddata CNC, defnydd ohono, neu ymyrryd ag ef gan unrhyw berson neu sefydliad;

16.5.4 mynediad diawdurdod i elfennau rhwydwaith, Safleoedd ac offerynnau a ddefnyddir gan y Contractwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau;

16.5.5 defnydd o systemau neu Wasanaethau'r Contractwr gan unrhyw drydydd parti er mwyn cael mynediad diawdurdod at unrhyw adnodd cyfrifiadurol neu Ddata CNC; a

16.5.6 colli argaeledd Data CNC am fod y Gwasanaethau wedi methu neu wedi'u cyfaddawdu.

16.6 Rhaid i'r naill Barti hysbysu'r llall ar unwaith cyn gynted ag y daw'n ymwybodol o unrhyw feddalwedd faleisus neu dor-diogelwch, yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, dor-diogelwch gwirioneddol, posibl neu ymgais, neu fygythiad i unrhyw gynllun diogelwch sydd ar waith gan CNC neu y gallai ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr ei ddatblygu a'i roi ar waith.

16.7 Pe bai'n dod yn ymwybodol o unrhyw un o'r amgylchiadau y cyfeirir atynt yn amod 16.5 rhaid i'r Contractwr gymryd pob cam rhesymol ar unwaith i:

16.7.1 cywiro'r cyfryw ddiffyg neu amddiffyn systemau'r Contractwr yn erbyn unrhyw dor-diogelwch neu fygythiad posib neu ymgais; a

16.7.2 atal unrhyw dor-diogelwch tebyg yn y dyfodol

Bydd y cyfryw gamau'n cynnwys unrhyw weithredu neu newidiadau y gofynnir amdanynt yn rhesymol gan CNC.

16.8 Os cyfyd unrhyw un o'r amgylchiadau y cyfeirir atynt yn amod 16.5 rhaid i'r Contractwr cyn gynted ag sy'n ymarferol o fewn rheswm ddarparu manylion llawn tor-diogelwch gwirioneddol, posib neu ymgais o'r fath i CNC (gan ddefnyddio'r cyfryw fecanwaith adrodd ag a bennir gan CNC o bryd i'w gilydd) ynghyd â'r camau a gymerwyd mewn cysylltiad â hynny.

## 17. TERFYNU

17.1 Heb ragfarn i unrhyw hawliau na rhwymedïau eraill sydd gan CNC, gall CNC derfynu'r contract hwn drwy roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r Contractwr.

17.2 Gall CNC derfynu'r Contract drwy rybudd ysgrifenedig sy'n dod i rym ar unwaith heb unrhyw atebolrwydd i wneud unrhyw daliad pellach i'r Contractwr (ar wahân i symiau a oedd wedi cronni cyn y dyddiad terfynu) lle mae'r Contractwr:

17.2.1 yn mynd drwy newid o ran rheolaeth (yn ôl ystyr adran 1124 o Ddeddf Treth Incwm a Chorfforaeth 2010), sy'n cael effaith niweidiol a materol ar gyflawni'r Contract; neu

17.2.2 yn mynd yn ansolfent, yn fethdalwr, yn cael ei ddiddymu, yn ymrwymo i drefniant gwirfoddol, yn penodi derbynnydd neu ddigwyddiad tebyg mewn unrhyw awdurdodaeth ac eithrio i ddibenion ail-lunio diddyled neu uno; neu

17.2.3 yn cyflawni (neu unrhyw is-gwmni, isgontractiwr neu gwmni neu sefydliad cysylltiedig), neu unrhyw un o'u cyfarwyddwyr, partneriaid neu uwch staff neu unrhyw berson cysylltiedig arall yn cyflawni trosedd fel y nodir yn Atodlen 6 i Ddeddf Caffael 2023 (fel y'i diwygiwyd); neu

17.2.4 yn dod (neu unrhyw is-gontractwr, isgontractiwr neu berson cysylltiedig, cwmni neu sefydliad yn dod) yn gyflenwr eithriedig fel y nodir yn Adran 57 o Ddeddf Caffael 2023 (fel y'i diwygiwyd); neu

17.2.5 yn dioddef neu'n caniatáu unrhyw atafaeleb, boed yn gyfreithiol neu'n ecwitïol, i gael ei chodi ar yr eiddo neu'i sicrhau yn ei erbyn, neu'n methu talu'i ddyledion o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986 neu fod y Contractwr yn rhoi'r gorau i fasnachu; neu

17.2.6 yn cyflawni unrhyw dor-darpariaeth neu fethiant difrifol neu fynych i gadw at unrhyw rai o ddarpariaethau'r Contract neu ei fod yn gwrthod cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a chyfreithiol gan CNC neu'n esgeulus o ran hynny.

17.3 Bydd y Contractwr yn hysbysu Goruchwyliwr y Contract ar unwaith pan fydd unrhyw newid rheolaeth yn digwydd. Dim ond hyd at y dyddiad chwe mis ar ôl i hysbysiad ysgrifenedig gael ei gyflwyno gan y Contractwr i CNC yn rhoi manylion y dyddiad y mae newid rheolaeth yn digwydd y caiff CNC arfer ei hawl o dan amod 17.2.1.

17.4 Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Contract, neu derfynu'r ddarpariaeth mewn unrhyw ran o'r Contract, drwy rybudd ysgrifenedig i'r parti arall a hynny'n dod i rym ar unwaith os bydd y parti arall yn cyflawni Diffyg ac os:

17.4.1 na chaiff y Diffyg ei gywiro o fewn 30 diwrnod, neu'r cyfryw gyfnod arall ag y cytunir arno rhwng y partïon, ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig yn nodi'r Diffyg ac yn gofyn am ei gywiro;

17.4.2 os nad oes modd cywiro'r Diffyg; neu

17.4.3 os yw'r Diffyg yn torri'r Contract yn sylfaenol.

17.5 Gall CNC, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, atal neu atal yn rhannol gyflawni'r Contract ar unwaith heb unrhyw atebolrwydd i wneud unrhyw daliad i'r Contractwr mewn perthynas â chyfnod yr ataliad:

17.5.1 er mwyn cynnal unrhyw ymchwiliad y mae CNC yn rhesymol ei ystyried yn briodol o dan yr amgylchiadau; neu

17.5.2 er budd iechyd a diogelwch neu warchod yr amgylchedd; neu

17.5.3 er mwyn cymryd rhan mewn unrhyw broses datrys anghydfod o dan y Contract hwn

18. **CANLYNIADAU TERFYNU**

18.1 Pan derfynir y Contract yn unol ag amod 17.1 rhaid i CNC:

18.1.1 talu i'r Contractwr y symiau sy'n ddyladwy ac a achoswyd yn rhesymol hyd at y dyddiad terfynu lle mae CNC wedi derbyn Nwyddau neu Wasanaethau sy'n cyfateb o ran gwerth;

18.1.2 talu i'r Contractwr y symiau sy'n ddyladwy am wariant a achoswyd ar ôl y dyddiad terfynu i'r graddau yr oeddent yn ganlyniadau ymrwymiadau a wnaed gan y Contractwr yn ddidwyll cyn y dyddiad y rhoddwyd rhybudd o'r terfynu arno ac nad oes modd eu dileu ar neu cyn y dyddiad terfynu. Rhaid i'r Contractwr gyflwyno rhestr o'r gyfryw golled, yn nodi'r eitemau a'r costau'n llawn, ynghyd â thystiolaeth ategol o'r colledion a achoswyd yn rhesymol ac mewn gwirionedd gan y Contractwr o ganlyniad i'r terfynu o fewn 5 diwrnod iddo dderbyn y rhybudd terfynu

ar yr amod na fydd unrhyw swm sy'n daladwy yn unol â'r amod 18.1 hwn ond yn daladwy gan CNC pe baent wedi bod yn daladwy yn unol â hyn pe na bai'r Contract wedi cael ei derfynu.

18.2 Ni fydd CNC yn atebol o dan amod 18.1.2 i dalu unrhyw swm y gellid ei hawlio o dan yswiriant yr oedd y Contractwr yn ei ddal, neu sydd o'i ychwanegu at unrhyw swm a dalwyd neu sy'n ddyladwy i'r Contractwr o dan y Contract yn fwy na'r cyfanswm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractwr pe na bai'r Contract wedi cael ei derfynu cyn i Gyfnod y Contract ddod i ben.

19. **RHEOLIADAU CYFLOGAETH**

19.1 Pe bai terfynu'r Contract hwn yn gallu cael ei ystyried yn "drosglwyddiad perthnasol" yn ôl ystyr y Rheoliadau Cyflogaeth, mae'r Contractwr yn ymrwymo i CNC:

19.1.1 i gydymffurfio ag unrhyw rai o'i rwymedigaethau o dan y Rheoliadau Cyflogaeth ac i gydweithredu â CNC a neu unrhyw Gontractwr Cyfnewid os bydd trosglwyddiad perthnasol;

19.1.2 nad yw wedi diwygio na newid telerau ac amodau ei Staff yn y 6 mis cyn terfynu'r Contract hwn;

19.1.3 i indemnio CNC a pharhau i'w indemnio rhag unrhyw atebolrwydd, cost, colled, hawliad, tâl, archeb neu draul y gellir eu priodoli i unrhyw weithred neu anwaith gan y Contractwr cyn neu'n deillio o derfynu'r Contract mewn perthynas ag unrhyw rai o rwymedigaethau neu ddyletswyddau'r Contractwr (pa un a ydynt yn codi o dan y gyfraith gyffredin, statud, arfer neu fel arall) tuag at neu mewn perthynas â'i Staff neu'i staff blaenorol (yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw atebolrwydd yn deillio o derfynu neu ddiswyddo unrhyw weithiwr neu gyn weithiwyr neu o fethiant gan y Contractwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Rheoliadau Cyflogaeth);

19.1.4 y bydd pob swm sy'n daladwy i neu mewn perthynas â'r Staff a gyflogir ganddo i gyflawni'r Contract hwn (yn cynnwys cyflogau (wythnosol a misol), goramser, bonws neu gomisiwn (a enillwyd ond sydd heb ei dalu), tâl gwyliau cronedig, treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn a phremiymau yswiriant) mewn perthynas â'r cyfnod cyn terfynu'r Contract hwn yn cael ei dalu gan y Contractwr a bod y Contractwr yn ymrwymo i indemnio CNC rhag unrhyw a phob cost, tâl a thraul yn deillio o'r cyfryw symiau neu'n gysylltiedig â nhw; a

19.1.5 i indemnio CNC ac unrhyw Gontractwr Cyfnewid mewn perthynas ag unrhyw hawliadau yn deillio o unrhyw weithred neu anwaith gan y Contractwr neu mewn perthynas ag unrhyw Staff arall o eiddo'r Contractwr nad ydynt wedi'u cyflogi, eu haseinio na'u hymrwymo i ddarparu Gwasanaethau o dan y Contract hwn.

19.2 Mae'r partïon yn cytuno y bydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn gymwys i'r amod 19 hwn i'r graddau angenrheidiol i sicrhau y bydd gan unrhyw Gontractwr Cyfnewid yr hawl i orfodi'r rhwymedigaethau sy'n ddyladwy i'r Contractwr Cyfnewid a'r indemniadau a roddir i'r Contractwr Cyfnewid gan y Contractwr drwy ei hawl ei hun yn unol ag adran 1(1) o Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

## 20. ATEBOLRWYDD AC YSWIRIANT

20.1 Nid yw'r naill barti na'r llall yn eithrio nac yn cyfyngu ar atebolrwydd y parti arall am farwolaeth neu anaf personol a achosir drwy ei esgeulustod neu oherwydd torri unrhyw rwymedigaethau sydd ymhlyg yn adran 12 o Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979 neu unrhyw atebolrwydd arall o'r fath nad yw'r gyfraith yn caniatáu ei eithrio.

20.2 Rhaid i'r Contractwr indemnio a pharhau i indemnio CNC yn llawn rhag pob hawliad, achos, gweithred, iawndal, cost gyfreithiol, traul neu unrhyw atebolrwydd arall o ba fath bynnag sy'n deillio o, yn ymwneud â, neu'n gysylltiedig â'r Contract yn cynnwys y rheini'n ymwneud ag unrhyw farwolaeth neu anaf personol, colled neu ddifrod i eiddo, colled ariannol yn deillio o unrhyw gyngor a roddwyd neu nas rhoddwyd gan y Contractwr, neu unrhyw golled arall a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan weithred neu anwaith y Contractwr. Ni fydd yr amod 20.2 hwn yn gymwys i'r graddau y gall y Contractwr ddangos na chafodd y gyfryw farwolaeth neu anaf personol, neu golled neu ddifrod, ei achosi gan ei esgeulustod neu'i ddiffyg ef neu na chyfrannodd hynny ato, nac i esgeulustod neu ddiffyg ei Staff nac i unrhyw amgylchiadau o fewn rheolaeth y Contractwr neu'i Staff.

20.3 Rhaid i'r Contractwr sefydlu a chynnal polisi neu bolisïau yswiriant gyda chwmni yswiriant cyfrifol gan ddarparu lefel o warchodaeth a thelerau yswiriant eraill sy'n dderbyniol i CNC ac y cytunodd iddynt mewn perthynas â'r holl risgiau y gallai'r Contractwr eu hwynebu, yn deillio o weithredu'r Contract gan y Contractwr, yn cynnwys marwolaeth neu anaf personol, colli eiddo neu ddifrod i eiddo, atebolrwydd cyflogwr, atebolrwydd cynnyrch, indemniad proffesiynol neu unrhyw golled arall. Rhaid i bolisïau o'r fath gynnwys gwarchodaeth rhag unrhyw golled ariannol yn deillio o unrhyw gyngor a roddir neu nas rhoddir gan y Contractwr.

20.4 Pan wneir cais am hynny, rhaid i'r Contractwr roi copïau i CNC o'r cyfryw bolisïau yswiriant a thystiolaeth fod y premiymau perthnasol wedi cael eu talu.

20.5 Rhaid i'r Contractwr hysbysu CNC cyn gynted â phosib a beth bynnag o fewn 48 awr i unrhyw ddigwyddiad a allai arwain at hawliad, archeb neu achos a rhaid iddo gyflenwi'r cyfryw fanylion am hynny ag y bydd CNC yn gofyn yn rhesymol amdanynt.

20.6 Rhaid i'r Contractwr indemnio CNC yn llawn ac yn ddiymdroi rhag unrhyw ddifrod o unrhyw fath a achosir gan unrhyw staff o eiddo'r Contractwr, pa un a achosir y cyfryw ddifrod drwy esgeulustod neu mewn rhyw ffordd arall i unrhyw dir, adeilad neu declyn sy'n eiddo i, yn cael ei ddefnyddio gan neu ym meddiant CNC yn deillio o gyflawni'r Contract neu gyflawni'r Gwasanaethau neu o ganlyniad i hynny.

## 21. CYFYNGU AR ATEBOLRWYDD

21.1 Yn ddarostyngedig i amod 20.1, bydd cyfanswm atebolrwydd CNC o dan y Contract hwn, neu mewn perthynas ag ef, boed hynny mewn tort (yn cynnwys esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol,) contract, camliwiad, adferiad neu fel arall, yn cael ei gyfyngu fel a ganlyn:

21.1.1 am beidio â thalu anfonebau am Wasanaethau a brynwyd, i'r swm sydd heb ei dalu; neu

21.1.2 am unrhyw fath arall o atebolrwydd, i'r swm a delir am y gwasanaethau o dan y Contract.

21.2 Yn ddarostyngedig i amod 20.1, bydd cyfanswm atebolrwydd y Contractwr o dan y Contract hwn, neu mewn perthynas ag ef, boed hynny mewn tort (yn cynnwys esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol,) contract, camliwiad, adferiad neu fel arall, yn cael ei gyfyngu i bum (5) miliwn o bunnoedd neu un cant a phump ar hugain y cant (125%) o gyfanswm y Pris Contract pa un bynnag yw'r mwyaf.

21.3 Yn ddarostyngedig i amod 20.1, ni fydd y naill Barti yn atebol i'r Parti arall am:

21.3.1 unrhyw golled neu ddifrod anuniongyrchol, arbennig neu ganlyniadol; neu

21.3.2 unrhyw golli elw, trosiant, cyfleoedd busnes neu niwed i ewyllys dda (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol).

21.4 Yn ddarostyngedig i amod 21.2 gall CNC, ymysg pethau eraill, adfer fel colled uniongyrchol:

21.4.1 unrhyw gostau a threuliau gweithredol a/neu weinyddol yn deillio o Ddiffyg y Contractwr;

21.4.2 unrhyw wariant neu daliadau gwastraff sy'n ddiangen oherwydd Diffyg y Contractwr a/neu a wynebir gan CNC oherwydd ei Ddiffyg;

21.4.3 y gost ychwanegol o gaffael Gwasanaethau yn lle rhai'r Contractwr am weddill Cyfnod y Contract; a

21.4.4 unrhyw arbedion disgwyliedig.

## 22. ASIEINIO, IS-GONTRACTWR A CHYFLENWYR

22.1 Rhaid i'r Contractwr beidio ag aseinio, is-gontractio na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall y Contract neu unrhyw ran ohono heb ganiatâd ysgrifenedig CNC ymlaen llaw. Ni fydd is-gontractio unrhyw ran o'r Contract yn rhyddhau'r Contractwr o unrhyw

rwymedigaeth na dyletswydd a briodolir i'r Contractwr o dan y Contract.

22.2 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am weithredoedd ac anweithiau ei is-gontractwyr fel pe baent yn weithredoedd ac anweithiau o'i eiddo ef.

22.3 Gall CNC ar unrhyw adeg newyddu, aseinio, trosglwyddo, codi ffi, morgeisio, is-gontractio neu ddelio mewn unrhyw fodd arall â phob un neu unrhyw rai o'i hawliau o dan y Contract a gall is-gontractio neu ddirprwyo mewn unrhyw fodd unrhyw rai neu bob un o'i rwymedigaethau o dan y Contract i unrhyw drydydd parti neu asiant.

## 23. RHWYMEDIGAETHAU AMGYLCHEDDOL

23.1 Rhaid i'r Contractwr ddarparu'r Gwasanaethau yn unol bob amser â Chyfraith Amgylcheddol a rheoliadau eraill sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r Contractwr yn Cyflawni'i fusnes a chan roi sylw dyledus i'r Targedau Amgylcheddol.

23.2 Wrth ddarparu'r Gwasanaethau bydd y Contractwr yn ymdrechu'n rhesymol i gyfrannu at y Targedau Amgylcheddol.

23.3 Rhaid i'r Contractwr yn ei holl weithrediadau ei hun, yn cynnwys prynu deunyddiau a Gwasanaethau, fabwysiadu ffordd ragweithiol gadarn o weithredu sy'n ystyriol o'r amgylcheddol, wedi'i chynllunio i leihau niwed i'r amgylchedd a rhaid iddo sicrhau na all unrhyw niwed i unrhyw berson, eiddo na'r amgylchedd ddeillio o weithredoedd neu anweithiau gweithwyr y Contractwr, is-gontractwyr ac asiantau mewn perthynas â'r Contract a gallu darparu prawf iddo wneud hynny i'r Goruchwyliwr Contract pan wneir cais.

23.4 Mae'r Contractwr yn cadarnhau

a) bod y broses a ddefnyddir wrth gynhyrchu Nwyddau yn lleihau i'r eithaf y defnydd o sylweddau sy'n teneuo'r osôn, cemegolion gwenwynig a llygryddion eraill yn cynnwys plwm, methyl clorofform a fformaldehyd;

b) ei fod o ddewis wedi ceisio a defnyddio deunyddiau amgen yn lle adnoddau naturiol anadnewyddadwy lle bynnag y mae hynny'n bosib; ac

c) wrth gynhyrchu Nwyddau ac wrth ddewis unrhyw ddeunyddiau pacio cysylltiol, ei fod wedi rhoi blaenoriaeth i ddeunyddiau sydd â'r lefel uchaf o gynnwys wedi'i ailgylchu ac y mae modd ailgylchu'r lefel uchaf ohonynt neu, lle mae ailgylchu cost effeithiol yn anymarferol, sydd mor fioddiraddadwy â phosib.

24. **TANAU**

24.1 Wrth gyflawni Gwasanaethau ar Safleoedd CNC, rhaid i'r Contractwr beidio â chynnau tanau yn ardal y goedwig heb ganiatâd CNC a rhaid iddo gymryd yr holl ragofalon rhesymol a phriodol o dan gyfarwyddyd CNC i atal ac i ddelio â'r tân yn y gyfryw ardal neu dir cyfagos a bydd y Contractwr yn gyfrifol am unrhyw golled bynnag drwy dân sydd i'w phriodoli i'w esgeulustod ef.

25. **CARAFANAU AC ATI**

25.1 Wrth gyflawni Gwasanaethau ar Safleoedd CNC, mae'r Contractwr yn cytuno i sicrhau na ddeuir ag unrhyw garafan, cartref symudol, cerbyd gwersylla na cherbyd cyfatebol na phabell ar dir CNC heb ganiatâd ysgrifenedig CNC (a gellir atal y caniatâd hwnnw neu'i roi yn ddarostyngedig ar y cyfryw amodau ag y gall CNC eu pennu, yn ôl ei ddisgresiwn).

26. **MYNEDIAD, SAFLEOEDD A DEUNYDDIAU**

26.1 Polisi CNC yw caniatáu mynediad cyhoeddus i holl goedwigoedd CNC lle bynnag y mae hynny'n bosib (yn amodol ar Is-ddeddfau CNC, lle maent yn gymwys). Fodd bynnag, ni chaniateir mynediad lle byddai'n tresmasu ar unrhyw gytundebau, cyfamodau neu ymrwymiadau ac fe'i rheolir lle mae'n gwrthdaro â rheoli neu amddiffyn y goedwig. Rhaid i'r Contractwr gadw at bolisi CNC ar fynediad cyhoeddus bob amser a bydd yn gyfrifol am hysbysu'i holl weithwyr ac is-gontractwyr o hynny. Yn arbennig, rhaid i'r Contractwr gadw at unrhyw awdurdodiadau a chaniatadau penodol yn ymwneud â gweithgareddau eraill sy'n digwydd yn y man neu gerllaw'r man lle mae'r Gwasanaethau'n cael eu cyflawni a rhaid iddo ufuddhau i gyfarwyddiadau ysgrifenedig neu lafar unrhyw un o swyddogion CNC.

26.2 Heb ragfarn i unrhyw rai o'i rwymedigaethau eraill o dan y Contract hwn, rhaid i'r Contractwr sicrhau:-

26.2.1 bod pob cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan neu ar ran y Contractwr mewn cyflwr addas i fod ar y ffordd fawr ac yn addas ar gyfer yr amodau ffordd perthnasol a'r tir a'i fod yn cael ei yrru neu'i ddefnyddio gan bersonél cymwys yn unig gyda phob medr, gofal a sylw priodol a'i fod yn cael ei yrru ar gyflymder doeth a rhesymol ym mhob amgylchiad, gan ystyried (heb gyfyngiadau ar hynny) natur y llwybr, y llwyth ar y cerbyd a'r amodau tywydd a ffordd ar y pryd;

26.2.2 bod pob cerbyd a/neu gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio gan neu ar ran y Contractwr mewn cyflwr saff a gweithiadwy a, heb ragfarn i'r rhag-grybwylledig, rhaid eu gweithio yn unol â'r holl ofynion cyfreithiol cymwys;

26.2.3 y rhoddir y gorau i ddefnyddio unrhyw beiriant neu ddull o weithio a weithredir gan neu ar ran y Contractwr, sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi, ym marn CNC, ddifrod y gellid ei osgoi i goed byw, trac neu ddraen, neu i unrhyw eiddo arall, ar gais CNC; a

26.2.4 bod y Llwybrau Mynediad Awdurdodedig a phob ffordd ar ac yng nghyffiniau unrhyw Safle Gwaith (yn cynnwys, er osgoi amheuaeth, bob hawl tramwy a mynediad cyhoeddus) yn cael eu cadw'n glir bob amser o rwystrau yn deillio o weithrediadau'r Contractwr a fyddai'n atal llif traffig dirwystr ac eithrio am gyfnod byr o oedi, ac eithrio lle daethpwyd i gytundeb i gau llwybr dros dro mewn perthynas â chyflawni'r Gwasanaethau neu fel y cytunwyd yn benodol fel arall gyda CNC.

26.3 Rhaid i'r Contractwr ddefnyddio Llwybrau Mynediad Awdurdodedig yn unig (a dim ond llwybrau felly y caiff eu defnyddio i gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract). Rhaid i'r Contractwr gymryd yr holl ragofalon rhesymol i atal unrhyw ddifrod y gellid ei osgoi i'r cyfryw Lwybrau Mynediad Awdurdodedig (yn cynnwys, heb ragfarn i natur gyffredinol y rhag-grybwylledig, sicrhau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ystod glaw eithriadol o drwm nac yn ystod neu ar ôl iddi ddadmer, oni bai eu bod yn addas i'w defnyddio felly heb achosi difrod y gellid ei osgoi) ac adfer unrhyw ddifrod gwirioneddol a achosir i lwybrau. Defnyddir llwybrau o'r fath ar fenter y Contractwr ei hun ac (ar wahân i'r graddau a achosir gan esgeulustod CNC neu'i weithwyr) ni fydd CNC yn atebol am unrhyw ddifrod neu anaf yn deillio o ddefnydd y Contractwr o lwybrau o'r fath. Nid yw CNC yn gwarantu o gwbl y bydd unrhyw Lwybrau Mynediad Awdurdodedig o'r fath yn addas i'w defnyddio gan gerbydau ar unrhyw adeg benodol.

26.4 Os digwydd bod angen i'r cyfan neu ran o'r Llwybrau Mynediad Awdurdodedig gael eu hatgyweirio neu'u cynnal a'u cadw, bydd gan CNC hawl, ar ôl ymgynghori â'r Contractwr ac eithrio mewn argyfwng, i gau'r cyfan neu ran o'r Llwybrau Mynediad Awdurdodedig tra caiff y gwaith ei gyflawni.

26.5 Bydd yr holl gyfarpar, peiriannau a deunyddiau a gludir i'r Safle Gwaith gan neu ar ran y Contractwr ar fenter y Contractwr ei hun ac ni fydd gan CNC unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod i unrhyw gyfarpar, peiriant na deunyddiau o'r fath oni bai ac i'r graddau y gall y Contractwr ddangos bod y cyfryw golled neu ddifrod wedi'i

achosi gan esgeulustod CNC neu'i weithwyr neu fod hynny wedi cyfrannu. Rhaid i'r Contractwr ddarparu ar gyfer cludo'r cyfryw gyfarpar, peiriannau a deunyddiau i'r Safle Gwaith a'u clirio oddi yno pan nad oes eu hangen mwyach, ar ei gost ef ei hun. Oni chytunir yn wahanol, bydd y cyfarpar, peiriannau a deunyddiau a gludir i'r Safle Gwaith yn parhau'n eiddo'r Contractwr ac eithrio lle bernir bod y cyfarpar, peiriannau a deunyddiau wedi'u gadael.

27. **ARCHWILIO**

27.1 Rhaid i'r Contractwr gadw a chynnal cofnodion llawn a chywir mewn modd sy'n bodloni CNC o'r holl wariant sy'n ad-daladwy gan CNC ac o'r oriau a weithiwyd a'r costau a achoswyd mewn perthynas ag unrhyw rai o weithwyr y Contractwr y telir amdanynt gan CNC ar sail codi am amser.

27.2 Rhaid i'r Contractwr ganiatáu mynediad bob amser i CNC, ei asiantau, ei gynrychiolwyr a'i archwilwyr, a/neu Gorff Rheoleiddio neu adran lywodraethol:

27.2.1 at gofnodion a deunyddiau ac asedau eraill a ddefnyddir wrth i'r Contractwr ddarparu'r Gwasanaethau; a

27.2.2 at Staff y Contractwr sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau;

27.2.3 mynediad rhesymol i unrhyw safleoedd neu eiddo a reolir gan y Contractwr ac at unrhyw gyfarpar neu systemau a ddefnyddir (boed hynny'n llwyr-gyfyngedig neu'n anghyfyngedig) wrth gyflawni'r Gwasanaethau; a

27.2.4 i dystio i, cynnal neu gyrchu at ganlyniadau unrhyw brofion ar brosesau diogelwch a gwrth-fesurau y mae'n ofynnol eu bod yn weithredol yn unol â'r Contract hwn.

27.3 Rhaid i'r Contractwr gydweithredu ag unrhyw archwiliad a gynhelir yn unol â'r cymal hwn a rhaid iddo ddarparu'r holl gyfryw wybodaeth a chofnodion y mae eu hangen yn rhesymol ar y parti archwilio i gynnal yr archwiliad yn rhad ac am ddim ac yn brydlon a rhaid iddo ganiatáu i'r parti archwilio wneud copïau o'r holl gyfryw wybodaeth a chofnodion.

27.4 Heb ragfarn i unrhyw hawliau na rhwymedïau sydd gan CNC, os bydd unrhyw archwiliad yn canfod bod y Contractwr wedi methu cyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract mewn unrhyw fodd materol, rhaid i'r partïon gytuno ar gynllun adfer a'i weithredu.

28. **HAWLILDIAD**

28.1 Ni fydd methiant i arfer neu oedi wrth arfer unrhyw hawl neu rwymedi a ddarperir o dan y Contract neu gan y Gyfraith yn gyfystyr ag ildio'r hawl neu'r rhwymedi hwnnw (nac unrhyw un arall), ac ni fydd chwaith yn atal nac yn cyfyngu ar arfer yr hawl neu'r rhwymedi hwnnw (neu unrhyw un arall) ymhellach.

28.2 Ni fydd unrhyw achos unigol neu rannol o arfer unrhyw hawl neu rwymedi a ddarperir o dan y Contract neu gan y Gyfraith yn atal nac yn cyfyngu ar arfer yr hawl neu'r rhwymedi hwnnw ymhellach.

28.3 Ac eithrio fel y darperir yn benodol ar ei gyfer gan y Contract, mae'r holl rwymedïau sydd ar gael i'r naill barti a'r llall am dorri'r Contract yn gronnus a gellir eu harfer yr un pryd neu ar wahân, ac nid ystyrir bod arfer unrhyw rwymedi unigol yn gyfystyr â dewis y rhwymedi hwnnw gan wrthod pob rhwymedi arall.

28.4 Dim ond os bydd yn ysgrifenedig y bydd hawlildiad (y ceir ei roi ar amodau) o unrhyw hawl neu rwymedi y darperir ar ei gyfer o dan y Contract neu gan y Gyfraith yn effeithiol a dim ond i'r parti y mae wedi'i gyfeirio ato ac o ran yr amgylchiadau penodol y'i rhoddir ar eu cyfer y bydd yn gymwys. Ni fydd yn atal y parti sydd wedi rhoi'r hawlildiad rhag dibynnu wedyn ar yr hawl neu'r rhwymedi o dan amgylchiadau eraill.

29. **TORADWYEDD**

29.1 Os penderfynir gan unrhyw lys neu gorff gweinyddol ag awdurdodaeth gymwys fod unrhyw ddarpariaeth (neu ran o ddarpariaeth) yn y Contract hwn yn annilys, yn anorfodadwy neu'n anghyfreithlon, rhaid torri'r ddarpariaeth honno a bydd y darpariaethau eraill yn parhau mewn grym fel pe bai'r Contract wedi cael ei weithredu'r gyda'r gyfryw ddarpariaeth annilys, anghyfreithlon neu anorfodadwy wedi'i dileu.

30. **FORCE MAJEURE**

30.1 Ni fydd y naill Barti'n atebol i'r llall am unrhyw oedi neu fethiant i gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract os bydd oedi neu fethiant o'r fath o ganlyniad i ddigwyddiad Force Majeure. Er gwaethaf y rhag-grybwylledig, rhaid i bob parti wneud pob ymdrech resymol i barhau i gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract. Os na all parti gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract o ganlyniad i ddigwyddiad Force Majeure am gyfnod o fwy na 6 mis, gall y parti arall derfynu'r Contract drwy rybudd ysgrifenedig a ddaw i rym ar unwaith.

30.2 Os bydd y naill barti neu'r llall yn dod ymwybodol o amgylchiadau Force Majeure sy'n arwain at neu sy'n debygol o arwain at unrhyw fethiant neu oedi ar ei ran, rhaid iddo hysbysu'r llall cyn gynted at sy'n rhesymol bosib a rhaid iddo amcangyfrif am ba gyfnod y bydd methiant neu oedi o'r fath yn para.

31. **TWYLL**

31.1 Rhaid i'r Contractwr ddiogelu arian CNC ar y Contract rhag twyll yn gyffredinol ac, yn arbennig, twyll ar ran ei Staff, neu gyfarwyddwyr a chyflenwyr y Contractwr. Rhaid i'r Contractwr hysbysu CNC ar unwaith os oes ganddo reswm i amau bod unrhyw dwyll wedi digwydd neu yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

32. **ADENNILL SYMIAU SY'N DDYLADWY**

32.1 Lle bynnag y bo unrhyw swm o arian i'w adennill oddi wrth y Contractwr neu'n daladwy ganddo o dan y Contract (gan gynnwys unrhyw swm y mae'r Contractwr yn atebol i'w dalu i CNC mewn perthynas ag unrhyw dor-Contract), gall CNC dynnu'r swm heb rybudd i'r Contractwr o unrhyw swm sy'n ddyladwy bryd hynny, neu a all ddod yn ddyladwy ar unrhyw adeg wedyn i'r Contractwr o dan y Contract hwn neu o dan unrhyw gytundeb neu gontract arall gyda CNC.

33. **CYHOEDDIADAU**

33.1 Rhaid i'r Contractwr beidio â gwneud, na chaniatáu i unrhyw berson wneud, unrhyw gyhoeddiad cyhoeddus ynglŷn â'r Contract (boed hynny cyn, wrth neu ar ôl cwblhau) ac eithrio fel sy'n ofynnol gan y Gyfraith neu gyda chaniatâd ysgrifenedig CNC ymlaen llaw (ni cheir atal caniatâd o'r fath, oedi na phennu amodau yn afresymol).

34. **DEDDF CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD-BARTÏON) 1999**

34.1 Yn ddarostyngedig i 19.2, ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r Contract hawliau o dan y Contract nac mewn perthynas ag ef yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd-Bartïon) 1999.

35. **DATRYS ANGHYDFOD**

35.1 Os cyfyd unrhyw anghydfod mewn perthynas â'r Contract hwn, dylai'r Contractwr yn y lle cyntaf ddarparu cwyn ysgrifenedig i Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol CNC.

35.2 Bydd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol CNC, neu berson sydd wedi'i ddirprwyo ganddynt, yn bwrw ymlaen i ymchwilio i gŵyn y Contractwr ac yn cadarnhau a fu'r apêl yn llwyddiannus ai peidio. Os na ellir dod i gytundeb fel hyn a bod yr apêl yn aflwyddiannus, gall y ddau barti gytuno i gyfeirio'r anghydfod neu'r gwahaniaeth at Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr yn 12 Bloomsbury Square Llundain WC1A 2LP.

35.3 Os bydd y naill barti neu'r llall yn dewis peidio dilyn y drefn amgen i ddatrys anghydfod, rhaid i'r ddau barti dderbyn awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.

36. **Y CONTRACT CYFAN**

36.1 Y Contract ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo yw'r cytundeb cyfan rhwng y partïon ac mae'n disodli unrhyw drefniant, dealltwriaeth neu gytundeb blaenorol rhyngddynt mewn perthynas â deunydd pwnc y Contract hwn.

36.2 Mae'r naill barti yn gwarantu i'r parti arall nad yw, wrth ymrwymo i'r Contract a'r dogfennau y cyfeirir atynt ynddo, yn dibynnu ar unrhyw ddatganiad, haeriad, sicrwydd na gwarant gan unrhyw berson (pa un a yw'n barti i'r Contract hwn ai peidio) ar wahân i'r hyn sydd wedi'i nodi'n benodol yn y Contract neu'r dogfennau hynny.

36.3 Nid fydd unrhyw beth yn yr amod hwn yn eithrio nac yn cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd am dwyll.

37. **CWMPAS Y CONTRACT**

37.1 Nid oes unrhyw beth yn y Contract wedi'i fwriadu i sefydlu partneriaeth neu gyd-fenter o unrhyw fath rhwng y partïon, ac ni ddylid tybied hynny; nid oes dim ynddo ychwaith i wneud unrhyw barti yn asiant i'r parti arall at unrhyw ddiben. Ni fydd gan unrhyw barti awdurdod i weithredu fel asiant ar ran, nac i rwymo, y parti arall mewn unrhyw ffordd.

38. **RHYBUDD**

38.1 Rhaid i unrhyw rybudd y mae angen ei roi o dan y Contract yn ysgrifenedig a chaiff:

38.1.1 ei ddanfon yn bersonol, neu

38.1.2 ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf rhagdaledig neu wasanaeth dosbarthu Diwrnod Gwaith nesaf arall neu drwy negesydd masnachol, neu

38.1.3 ei anfon ynghlwm wrth e-bost ar ffurf llythyr pdf yn ymgorffori pennawd y parti sy'n rhoi hysbysiadau,

i bob parti y mae'n ofynnol iddo dderbyn yr hysbysiad yn ei gyfeiriad fel y nodir yn y

Gorchymyn Contract neu mewn unrhyw gyfeiriad arall a bennir gan y parti perthnasol drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r llall AR YR AMOD na fydd darpariaethau'r Cymal hwn yn berthnasol i unrhyw hysbysiadau tryloywder y mae'n ofynnol i CNC eu darparu yn unol â darpariaethau Deddf Caffael 2023.

38.2 Ystyrir bod unrhyw rybudd wedi cael ei roi'n briodol:

38.2.1 os caiff ei ddanfon trwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd ymlaen llaw neu wasanaeth dosbarthu Diwrnod Gwaith nesaf neu negesydd masnachol, ar ddyddiad llofnodi derbynneb y negesydd; neu

38.2.2 os caiff ei anfon drwy e-bost, ar adeg ei drosglwyddo, neu, os yw'r amser hwn y tu allan i oriau gwaith yn y man derbyn, pan fydd Oriau Gwaith yn ailddechrau.

38.3 Ni fydd darpariaethau'r cymal hwn yn berthnasol mewn unrhyw achos o gyflwyno unrhyw broses mewn unrhyw achos neu weithred gyfreithiol.

39. **CYFRAITH AC AWDURDODAETH**

39.1 Caiff y Contract ac unrhyw anghydfod neu hawliad yn deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef neu'i ddeunydd pwnc ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr a'i ddehongli yn unol â'r gyfraith honno.

39.2 Mae'r partïon yn cytuno'n ddi-droi'n-ôl y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r Contract neu'i ddeunydd pwnc neu mewn cysylltiad â hynny.

40. **Y GYMRAEG**

40.1 Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg CNC lle mae'n berthnasol i'w waith yn cyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract.

## ATODLEN 1

## DIFFINIADAU

Ystyr “**Achos o golli data”** yw golyga hyn unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at neu a allai arwain at fynediad heb awdurdod i ddata personol sydd gan y contractwr dan y contract hwn, a/neu golled wirioneddol neu bosib a/neu ddinistrio data personol sy'n achos o dorri'r contract hwn, gan gynnwys unrhyw achos o dorri diogelwch data personol.

Ystyr **“Amodau Contract Penodol”** yw telerau ac amodau arbennig CNC sy’n gymwys i’r math o Wasanaethau sydd i gael eu darparu gan y Contractwr fel y’u nodwyd yn Atodlen 2.

Ystyr **“Amodau Cyffredinol”** yw’r telerau a’r amodau hyn.

Ystyr **“Amserlen”** yw’r amserlen er darparu a chwblhau’r Gwasanaethau fel y’u pennir yn y Gorchymyn Contract.

Ystyr **“Arferion Da’r Diwydiant”** yw defnyddio safonau, arferion, dulliau a gweithdrefnau ac arfer y graddau hynny o sgìl a gofal, diwydrwydd, pwyll a chraffter ag y byddid yn ei ddisgwyl yn rhesymol ac fel arfer gan berson medrus a phrofiadol sy’n ymgymryd â gwaith tebyg o dan yr un amgylchiadau neu amgylchiadau tebyg.

Ystyr **“Awdurdod Contractio”** yw’r ystyr a roddir iddo yn Adran 2 o Ddeddf Caffael 2023.

Ystyr “**Cais am fynediad gan wrthrych data”** yw golyga hyn gais a wnaed gan, neu ar ran, gwrthrych data yn unol â hawliau a roddir yn unol â deddfwriaeth diogelu data i gael mynediad i'w ddata personol.

Ystyr **“Capasiti”** yw fel asiant, ymgynghorydd, cyfarwyddwr, gweithiwr, perchennog, partner, cyfranddaliwr neu mewn unrhyw gapasiti arall.

Ystyr **“CNC”** yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cathays, Rhodfa Brenin Edward VII, Caerdydd, CF10 3NQ.

Ystyr **“Coed Cludo”** yw coed a ryddheir o bryd i’w gilydd gan CNC ar y Safleoedd Pentyrru i gael eu casglu a’u cludo yn unol â’r Contract hwn.

Ystyr **“Coed”** yw’r holl goed gwyryfol a chynnyrch yn deillio o bren a gyflenwir gan y Contractwr neu’r Staff i CNC o dan y Contract hwn, neu a ddefnyddir gan y Contractwr neu’r Staff i gyflawni’r Contract hwn o bryd i’w gilydd.

Ystyr **“Contract”** yw’r Contract rhwng CNC a’r Contractwr sef yr Amodau Cyffredinol hyn, y Gorchymyn Contract, yr Amodau Arbennig ac unrhyw ddogfennau eraill (neu rannau ohonynt) a bennir gan CNC.

Ystyr **“Contractwr Cyfnewid”** yw ffyrm, cwmni neu sefydliad y mae CNC yn llunio contract ag ef i ddarparu’r Gwasanaethau neu wasanaeth sydd i raddau helaeth yr un math o wasanaeth (yn gyfan gwbl neu’n rhannol) ar ôl i’r Contract derfynu.

Ystyr **“Contractwr”** yw’r person, y ffyrm neu’r cwmni y mae CNC yn ymrwymo i Gontract gydag ef, y mae ei fanylion wedi’u nodi yn y Gorchymyn Contract.

Ystyr **“Corff Rheoleiddio”** yw’r adrannau llywodraeth hynny ac endidau, pwyllgorau a chyrff rheoleiddiol, statudol ac eraill sydd, boed hynny o dan statud, rheolau, rheoliadau, codau ymarfer neu fel arall, â hawl i reoleiddio, ymchwilio, neu ddylanwadu ar y materion yr ymdrinnir â nhw yn y Contract hwn neu unrhyw faterion eraill o eiddo CNC.

Ystyr **“Cyfnod Contract”** yw’r cyfnod y bydd y Contract yn para o’r Dyddiad Cychwyn yn unol â’r Gorchymyn Contract.

Ystyr **“Cyfraith Amgylcheddol”** yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Ystyr **“Cyfraith”** yw cyfraith, statud, is-ddeddf, rheoliadau, gorchymyn, polisi rheoleiddio, canllawiau neu god diwydiant, rheol llys neu gyfarwyddiadau neu ofynion unrhyw Gorff Rheoleiddio, deddfwriaeth ddirprwyedig neu is-ddeddfwriaeth neu rybudd gan unrhyw Gorff Rheoleiddio, lle maen nhw’n gymwys.

Ystyr “**Cyfreithiau perthnasol”** yw golyga hyn gyfreithiau sy'n ymwneud â phrosesu data personol unrhyw aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu o'r Undeb Ewropeaidd ac sy'n berthnasol i'r contractwr.

Ystyr **“Cynnyrch”** yw (i) y coed sydd wedi’u marcio gan CNC drwy’r dull marcio a bennir ar y Map Contract ac sy’n sefyll o fewn y Safle Gwaith (yn cynnwys, ond heb ragfarn i natur gyffredinol y rhag-grybwylledig, y coed a’r pren a gynrychiolir gan y coed hynny), neu (ii) y cynnyrch pren fel y’i cyflwynir ar safle bonion ac wrth ymyl y ffordd o fewn y Safle Gwaith.

Ystyr **“Data CNC”** yw’r data, testun, lluniadau, diagramau, delweddau neu synau (ynghyd ag unrhyw gronfa ddata arall wedi’i chreu o’r rhain) sydd wedi’u hymgorffori ar unrhyw gyfryngau electronig, magnetig, optegol neu ddiriaethol ac:

a) a gyflenwir i’r Contractwr gan CNC neu ar ei ran; neu

b) y mae'n ofynnol i'r Contractwr eu cynhyrchu, prosesu, storio neu drosglwyddo yn unol â'r Contract; neu

c) unrhyw ddata personol y mae CNC yn rheolydd data drosto.

Ystyr **"Data personol"** yw golyga hyn ddata personol fel a ddiffinnir yn neddfwriaeth diogelu data.

Ystyr "**Deddfwriaeth diogelu data"** yw'r holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd cymwys sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU gan gynnwys GDPR y DU (fel y'i diffinnir gan adran 3(10) (fel yr ategwyd gan adran 205(4)) o Ddeddf Diogelu Data 2018); Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) (a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno); Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'u diwygiwyd, a'r holl ddeddfwriaethau a gofynion rheoleiddiol eraill sydd mewn grym o bryd i'w gilydd sy'n gymwys i barti sy'n ymwneud â defnyddio data personol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, preifatrwydd cyfathrebiadau electronig); a'r canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu awdurdod rheoleiddio perthnasol arall ac sy'n gymwys i barti.

Ystyr **"Diffyg"** yw unrhyw dorri ar rwymedigaethau'r naill barti neu'r llall (yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i dorri sylfaenol neu dorri amod sylfaenol) neu unrhyw ddiffyg, gweithred, anwaith, esgeulustod neu ddatganiad gan y naill parti neu'r llall, ei weithwyr, asiantau neu is-gontractwyr mewn cysylltiad neu berthynas â deunydd pwnc y Contract, y mae'r naill barti yn atebol i'r llall ynglŷn ag ef.

Ystyr **"Diwrnodau Gwaith"** yw'r diwrnodau hynny pan fydd y banciau clirio ar agor i fusnes ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl gyhoeddus yng Nghymru neu Loegr.

Ystyr **"Dyddiad Cychwyn"** yw'r dyddiad y mae'r prosiect, y gwasanaethau neu'r contract i gychwyn arno fel y'i pennir yn y Gorchymyn Contract.

Ystyr **"FLEGT"** yw coed wedi'u trwyddedu gan FLEGT sydd wedi dod o wlad sydd wedi ymrwymo i Gontract Partneriaeth Gwirfoddol gyda'r Deyrnas Unedig, yn unol â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig.

Ystyr **"Gofynion Iechyd a Diogelwch"** yw'r holl ddeddfwriaeth, rheolau, polisïau a rheoliadau iechyd a diogelwch cymwys a gofynion iechyd a diogelwch rhesymol eraill sydd mewn grym gan CNC o bryd i'w gilydd.

Ystyr **"Force Majeure"** yw unrhyw achlysur neu ddigwyddiad sydd y tu allan i reolaeth resymol y parti dan sylw, ac nad yw'n briodoladwy i unrhyw weithred neu fethiant i weithredu gan y parti penodol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) reoliadau llywodraeth, tân, llifogydd, neu

unrhyw drychineb. Nid yw hyn yn cynnwys gweithredu diwydiannol sy'n digwydd o fewn sefydliad y Contractwr nac o fewn sefydliad unrhyw is-gontractwr.

Ystyr **"Gorchymyn Contract"** yw y ffurflen Gorchymyn Contract neu'r ffurflen archeb brynu a gyflwynir gan CNC i'r Contractwr yn nodi'r fanyleb a'r gofynion.

Ystyr **"Goruchwyliwr Contract"** yw'r person sydd am y tro wedi'i benodi gan CNC fel y sawl sydd wedi'i awdurdodi i weinyddu'r Contract ar ran CNC neu'r cyfryw berson ag a enwebir gan Gynrychiolydd CNC i weithredu ar ei ran.

Ystyr **"Gwaith Gosod"** yw'r gwaith gosod y mae gofyn ei gyflawni cyn cychwyn y Gwasanaethau.

Ystyr **"Gwasanaethau"** yw unrhyw Nwyddau neu wasanaethau sydd i gael eu cyflenwi gan y Contractwr o dan y Contract sydd wedi'u disgrifio'n fwy penodol yn y Gorchymyn Contract.

Ystyr **"Gwirio Annibynnol"** yw bod gwerthusiad yn cael ei gynnal a bod adroddiad arno yn cael ei ddarparu gan unigolyn neu gorff y mae ei sefydliad, ei systemau a'i weithdrefnau yn cydymffurfio ag *ISO Guide 65:1996 (EN 45011:1998) General requirements for bodies operating product certification systems* neu gyfatebol, ac sydd wedi'i achredu i archwilio yn erbyn safonau rheoli coedwigoedd gan gorff y mae ei sefydliad, ei systemau a'i weithdrefnau yn cydymffurfio ag *ISO 17011: 2004 General Requirements for Providing Assessment and Accreditation of Conformity Assessment Bodies* neu gyfatebol.

Ystyr **"Gwybodaeth Gyfrinachol"** yw unrhyw wybodaeth y mae'r naill barti neu'r llall wedi dynodi'n ysgrifenedig ei bod yn gyfrinachol neu wybodaeth a ddylai gael ei hystyried yn gyfrinachol (sut bynnag y caiff ei chyfleu neu ar ba gyfryngau bynnag y caiff ei storio) yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, Gwasanaethau, datblygiadau, cyfrinachau masnach, Hawliau Eiddo Deallusol, gwybodaeth ymarferol arbennig, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill barti a'r llall ac unrhyw ddata personol a data personol sensitif yn ôl ystyr Deddfwriaeth Diogelu Data.

Ystyr **"Hawliau Canlyniadol"** yw'r holl ddyfeisiau, gwelliannau a/neu ddarganfyddiadau a lunnir a/neu a wneir, yn unigol neu'n gyfunol, ac unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol a grëir gan un neu fwy o aelodau o Staff y Contractwr neu'i is-gontractwyr yn gweithredu un ai ar eu pen eu hunain neu gydag un neu fwy o weithwyr CNC wrth gyflawni'r Gwasanaethau.

Ystyr **"Hawliau Eiddo Deallusol"** yw yr holl Hawliau Eiddo Deallusol yn cynnwys, yn ddigyfyngiad, batentau, dyfeisiadau, nodau masnachol, nodau gwasanaeth, logos, hawliau dylunio (boed yn gofrestradwy ai peidio), cymwysiadau ar gyfer unrhyw rai o'r uchod,

hawlfraint, hawliau cronfeydd data, enwau parth, enwau masnachu neu fusnes, hawliau moesol ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau tebyg boed yn gofrestradwy ai peidio mewn unrhyw wlad (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r Deyrnas Unedig) a'r hawl i ddwyn achos yn erbyn sefyllfa lle bu peri coel.

Ystyr **"Hawliau Presennol"** yw unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol o eiddo'r Contractwr a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau a oedd mewn bodolaeth cyn y Dyddiad Cychwyn, nas crëwyd yn benodol i'w defnyddio neu i'r bwriad o'u defnyddio mewn perthynas â chyflawni'r rhwymedigaethau o dan y Contract hwn.

Ystyr **"Lleoliad Danfon"** yw y lleoliad sydd wedi'i nodi ar gyfer danfon yn y Gorchymyn Contract, oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gan CNC.

Ystyr **"Llwybrau Mynediad Awdurdodedig"** yw y ffyrdd y caiff y Contractwr eu defnyddio yn unol â'r Contract hwn sydd wedi'u marcio felly ar y Map Contract, a/neu y cyfryw ffyrdd eraill ag y cytunir arnynt rhwng CNC a'r Contractwr o bryd i'w gilydd.

Ystyr **"Manyleb"** yw'r ddogfen manyleb y mae'r partïon yn cytuno arni cyn y Dyddiad Cychwyn, sy'n nodi'r gofynion manwl sy'n ofynnol er mwyn darparu'r Gwasanaethau.

Ystyr **"Map Contract"** yw y map neu'r mapiau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn Contract;

Ystyr **"Nwyddau"** yw unrhyw nwyddau y cytunwyd yn y Gorchymyn Contract eu bod i gael eu cyflenwi i CNC gan y Contractwr (yn cynnwys unrhyw ran neu rannau ohonynt).

Ystyr **Oriau Gwaith**: y cyfnod o 9.00 i 5.00 pm ar unrhyw Ddiwrnod Gwaith.

Ystyr **"Parti"** yw unrhyw barti i'r Contract hwn yn unigol ac mae "**Partïon**" yn cyfeirio at yr holl bartïon i'r Contract hwn gyda'i gilydd. Bydd Parti yn cynnwys holl aseineion a ganiateir y Parti dan sylw.

Ystyr **"Pris Contract"** yw'r pris, heb gynnwys unrhyw dreth gymwys, sy'n daladwy i'r Contractwr gan CNC o dan y Contract, fel y'i nodwyd yn y Gorchymyn Contract, am i'r Contractwr gyflawni'n llwyr a phriodol ei ran ef o'r Contract fel y'i pennwyd o dan amodau'r Contract.

Ystyr **"Proffil Talu"** yw'r proffil talu ac unrhyw gerrig milltir talu a nodir yn y Gorchymyn Contract.

Ystyr **"Rheoliadau Cyflogaeth"** yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 fel y'u diwygiwyd o dan Reoliadau Diswyddiadau Cyfunol a Throsglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 2014 (SI2014/16).

Ystyr **“Safle Gwaith”** yw’r darnau hynny o dir (yn cynnwys unrhyw Lwybrau Mynediad Awdurdodedig) a ddangosir drwy groeslinellu (neu’u nodi fel arall) ar y Map Contract.

Ystyr **“Safleoedd Pentyrru”** yw’r lleoliadau hynny gerllaw’r Llwybrau Mynediad Awdurdodedig (sydd wedi’u lleoli bob amser o fewn y Safle Gwaith) ac sydd wedi’u nodi ar y Map Contract, lle mae’r coed yn deillio o gynaeafu’r Cynnyrch i gael eu pentyrru.

Ystyr **“Safleoedd”** yw’r lleoliadau lle mae’r Gwasanaethau i gael eu darparu fel y pennir yn y Gorchymyn Contract.

Ystyr **“Safonau Ansawdd”** yw y safonau ansawdd hynny sy’n ofynnol yn y Gwasanaethau fel y’u pennwyd yn y Contract (neu os nad ydynt wedi’u mynegi’n benodol yn y Contract, y safonau ansawdd hynny fel y cytunir rhwng y partïon cyn y Dyddiad Cychwyn).

Ystyr **“Staff”** yw’r holl bersonau sy’n cael eu cyflogi gan y Contractwr i gyflawni’r Contract ynghyd â gweision, asiantau ac is-gontractwyr y Contractwr a ddefnyddir i gyflawni’r Contract.

Ystyr **“Targedau Amgylcheddol”** yw amcanion amgylcheddol trawslywodraethol, yn chynnwys rhwymedigaeth i:

a) arbed ynni, dŵr ac adnoddau eraill; a

b) lleihau gwastraff a rhyddhau cyn lleied â phosib o nwyon tŷ gwydr, rhagsylweddion glaw asid, cyfansoddion organig anweddol a sylweddau eraill sy’n niweidiol i iechyd a’r amgylchedd yn deillio o weithgarwch ar ystâd y llywodraeth neu’n gysylltiedig â hi.

Ystyr **“Telerau Arbennig”** yw’r telerau arbennig sydd wedi’u nodi yn y Gorchymyn Contract.

Ystyr **“Ymrwymiad”** yw bod CNC yn ymrwymo’r Contractwr i ddarparu’r Gwasanaethau ar delerau’r Contract.

## ATODLEN 2

## AMODAU CONTRACT PENODOL ER PRYNU GWASANAETHAU

Dylid darllen yr Amodau Contract Penodol hyn law yn llaw â'r Amodau Cyffredinol a'r Gorchymyn Contract ac maent yn llywodraethu sut mae gwasanaethau i gael eu darparu gan Gontractwr i CNC.

1. **RHWYMEDIGAETHAU'R CONTRACTWR**

1.1 Rhaid i'r Contractwr:

1.1.1 cydweithredu'n llawn, wrth ddarparu'r Gwasanaethau, a sicrhau bod ei Staff (lle mae'n gymwys) yn cydweithredu'n llawn â gweithwyr, asiantau ac is-gontractwyr CNC; a

1.1.2 os na all y Contractwr gyflawni'r Gwasanaethau, neu unrhyw ran ohonynt, rhaid iddo hysbysu CNC yn ddiymdroi gan fanylu ar yr amgylchiadau, y rhesymau a pha mor hir mae hynny'n debygol o bara. Nid oes dim yn y paragraff 1.1.2**Error! Reference source not found.** hwn i newid neu addasu rhwymedigaeth y Contractwr i ddarparu'r Gwasanaethau nac i'w ryddhau ohoni nac i'w hamrywio mewn unrhyw ffordd arall.

1.2 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod cyflenwad digonol o Staff cymwys, â chymwysterau addas, sydd wedi'u cyfarwyddo'n briodol, ar gael i sicrhau trefniadau cyflenwi priodol i ddarparu'r Gwasanaethau yn ystod gwyliau ac absenoldeb salwch, neu yn ystod absenoldeb am unrhyw reswm arall.

2. STAFF

2.1 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod gan bob aelod staff a gyflogir gan y Contractwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau gymwysterau priodol a digonol bob amser a'i fod yn cael cyfarwyddiadau priodol a digonol mewn perthynas â:

2.1.1 y dasg neu'r tasgau y mae gofyn i'r person hwnnw eu cyflawni;

2.1.2 unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Contract;

2.1.3 y Gofynion Iechyd a Diogelwch;

2.1.4 yr angen i gynnal y safonau uchaf o ran ymddangosiad, cwrteisi a bod yn ystyriol o safbwynt cyswllt ag aelodau o'r cyhoedd; a

2.1.5 yr angen i ddelio'n effeithlon a phrydlon â sefyllfaoedd sy'n golygu perygl gwirioneddol neu bosib o anaf personol i unrhyw berson ac i roi gwybodaeth am sefyllfaoedd felly i CNC a galw'r gwasanaeth meddygol brys priodol os oes angen.

2.2 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod ei Staff yn cyflawni'u dyletswyddau ac, wrth ddarparu'r Gwasanaethau, eu bod yn ymddwyn:

2.2.1 yn weddus bob amser ac mewn modd mor dawel ag sy'n rhesymol ymarferol, o ystyried natur y dyletswyddau sy'n cael eu darparu ganddynt; a

2.2.2 yn y fath fodd ag i beidio â tharfu yn afresymol nac yn ddianghenraid ar waith unrhyw rai o staff CNC ei hun na tharfu'n afresymol ar drigolion lleol neu ymwelwyr a dylid cymryd gofal i darfu cyn lleied â phosib ar fywyd gwyllt ac achosi cyn lleied â phosib o ddifrod iddo.

2.3 Rhaid i'r Contractwr ei gwneud yn ofynnol bob amser i'r staff fod wedi'u gwisgo'n briodol a thaclus mewn gwisg swyddogol neu ddillad gwaith addas wrth ddarparu'r Gwasanaethau. Rhaid i'r holl wisgoedd swyddogol, dillad gwaith neu unrhyw ddillad arbennig neu ddillad diogelwch o'r fath gael eu darparu gan y Contractwr.

2.4 Mae'r Contractwr yn cydnabod y gall gwaith gael ei gyflawni mewn mannau anghysbell a bydd yn gyfrifol am amddiffyn ei Staff a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl rwymedigaethau iechyd a diogelwch o dan y Gyfraith, yn cynnwys Gofynion Iechyd a Diogelwch, a rhaid iddo sicrhau bod trefniadau addas ar weithio unigol ar waith.

2.5 Rhaid i'r Contractwr ddarparu ar ei draul ei hun, a rhaid iddo ei gwneud yn ofynnol i'r Staff a gyflogir i ddarparu'r Gwasanaethau i wisgo neu gario'r cyfryw ddogfennau adnabod (yn cynnwys llun adnabod) ag a bennir gan CNC.

2.6 Mae'r Contractwr yn ymrwymo y bydd pob swm sy'n daladwy i neu mewn perthynas â'r Staff a gyflogir ganddo i gyflawni'r Contract hwn (yn cynnwys unrhyw gyflogau (wythnosol a misol), goramser, bonws neu gomisiwn (a enillwyd ond sydd heb ei dalu), tâl gwyliau cronedig, treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn a phremiymau yswiriant) yn cael ei thalu gan y Contractwr am y Cyfnod Contract ar ei hyd ac mae'r Contractwr drwy hyn yn indemnio CNC rhag unrhyw a phob cost, tâl a thraul yn deillio o'r cyfryw symiau neu'n gysylltiedig â nhw.

2.7 Mae'r Contractwr yn cytuno na wnaiff, heb ganiatâd ysgrifenedig CNC ymlaen llaw:

2.7.1 cynyddu'r gyfran o amser gwaith a dreulir ar ddarparu'r Gwasanaethau (neu

unrhyw ran berthnasol) o dan y Contract, na chynyddu'r nifer o Staff sy'n gweithio ar hynny, ar wahân i gyflawni aseiniadau a phrosiectau sydd wedi'u rhaglennu'n flaenorol, y cytunwyd arnynt rhwng CNC a'r Contractwr; na

2.7.2 cyflogi rhywun yn lle aelod Staff unigol sydd wedi'i gyflogi, ei aseinio neu'i ymrwymo i ddarparu'r Gwasanaethau o dan y Contract.

2.8 Rhaid i'r Contractwr gael caniatâd ymlaen llaw gan CNC cyn cychwyn ar unrhyw Wasanaethau ar gyfer ardaloedd, os oes rhai, sy'n addas ar gyfer parcio cerbydau, storio a danfoniadau.

3. **SAFLEOEDD**

3.1 Mewn perthynas â safleoedd CNC, rhaid i'r Contractwr:

3.1.1 sicrhau bod pob person sy'n cyflawni'r Gwasanaethau ar Safleoedd CNC yn cydymffurfio â'r polisïau a'r rheoliadau diogelwch a diogelwch personol sydd mewn grym ar y pryd ar Safleoedd CNC; a

3.1.2 cydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau a roddir iddo gan CNC mewn perthynas â mynediad i'r cyfryw Safleoedd CNC (yn cynnwys symud unrhyw berson oddi yno lle mae CNC yn gofyn am hynny).

4. **Y FFORDD Y CYFLAWNIR Y GWASANAETHAU**

4.1 Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio bob amser â'r Safonau Ansawdd, a lle mae hynny'n berthnasol rhaid iddo gynnal achrediad gyda'r corff perthnasol sy'n awdurdodi Safonau Ansawdd. I'r graddau nad yw safon y Gwasanaethau wedi cael ei phennu yn y Contract, rhaid i'r Contractwr gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract yn unol â'r Gyfraith ac Arferion Da'r Diwydiant.

4.2 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod yr holl Staff sy'n cyflenwi'r Gwasanaethau a/neu'r Gwaith Gosod yn gwneud hynny gyda medr, gofal a diwydrwydd dyladwy ac yn meddu ar y cyfryw gymwysterau, sgiliau a phrofiad sy'n angenrheidiol er mwyn cyflenwi'r Gwasanaethau'n briodol. Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod yr aelodau Staff hynny yn cael eu rheoli a'u goruchwylio'n briodol.

4.3 Gydol Cyfnod y Contract, rhaid i'r Contractwr:

4.3.1 meddu bob amser ar bob trwydded, cymeradwyaeth a chaniatâd sy'n angenrheidiol i alluogi'r Contractwr a'i Staff i gyflawni'r Gwasanaethau;

4.3.2 darparu'r holl offer a chyfarpar sy'n angenrheidiol i gwblhau'r Gwasanaethau (neu sicrhau bod yr holl offer a chyfarpar yn cael eu darparu); a

4.3.3 wrth gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract, peidio mewn unrhyw fodd â pheryglu diogelwch nac ymyrryd yn anghyfreithlon â diogelwch na hwylustod y cyhoedd.

5. **GOFYNION COED**

5.1 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod yr holl Goed a gyflenwir neu a ddefnyddir gan y Contractwr wrth gyflawni'r Contract:

5.1.1 Yn dod o ffynhonnell gyfreithiol a chynaliadwy y gellir ei gwirio'n annibynnol gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, Coed gan bartner FLEGT (*Forest Law Enforcement, Governance and Trade*) trwyddedig; a

5.1.2 Yn cydymffurfio â'r manylebau manwl a roddir yn y Gorchymyn Contract.

5.2 Yn ychwanegol at ofynion paragraff 5.1**Error! Reference source not found.** uchod, bydd yr holl Goed yn deillio o ffynhonnell goedwig lle mae rheolwyr y goedwig yn rhoi sylw llawn i:

5.2.1 Nodi, dogfennu a pharchu daliadaeth a hawliau defnyddio cyfreithiol, traddodiadol ac yn-ôl-defod sy'n berthnasol i'r goedwig;

5.2.2 Mecanweithiau i ddatrys achwyniadau a chwynion yn cynnwys y rhai'n ymwneud â daliadaeth a hawliau defnyddio, ag arferion rheoli coedwigoedd ac ag amodau gwaith; a

5.2.3 Diogelu hawliau llafur sylfaenol ac iechyd a diogelwch gweithwyr coedwig.

6. **Y GOFYNION O RAN PROFI TARDDIAD COED**

6.1 Os gwneir cais gan CNC, ac nad yw wedi'i ddarparu'n barod ar y cam gwerthuso tendrau, rhaid i'r Contractwr ddarparu i CNC:

6.1.1 Tystiolaeth fod y Coed yn cydymffurfio â'r gofynion fel y manylir arnynt yn y Gorchymyn Contract; a/neu

6.1.2 Tystiolaeth fod y Coed yn cydymffurfio â gofynion y meini prawf cymdeithasol fel y'u diffinnir yn 5.1 uchod.

6.2 Mae CNC yn cadw'r hawl ar unrhyw adeg tra bydd y Contract ar waith ac am gyfnod o 6 blynedd o'r danfoniad olaf o dan y Contract i'w gwneud yn ofynnol i'r Contractwr ddarparu'r dystiolaeth ofynnol i gael ei harchwilio gan CNC o fewn 14 diwrnod i gais ysgrifenedig CNC.

6.3 Rhaid i'r Contractwr gadw cofnodion o'r holl Goed a ddanfonir i CNC ac a dderbynnir ganddo. Rhaid darparu'r wybodaeth honno i CNC os gwneir cais am hynny, am gyfnod o 6 blynedd o'r danfoniad olaf o dan y Contract.

## 7. GWIRIO ANNIBYNNOL

7.1 Mae CNC yn cadw'r hawl i benderfynu a yw'r dystiolaeth a gyflwynir iddo yn dangos bod y Coed yn cydymffurfio â'r Gorchymyn Contract a'r meini prawf cymdeithasol a nodir ym mharagraff 5.1.

7.2 Os na fydd CNC wedi'i fodloni, rhaid i'r Contractwr gomisiynu a thalu costau Gwiriad Annibynnol ac adroddiad yn sgil hynny a fydd:

(a) yn gwirio ffynhonnell goedwig y coed a'r cynnyrch yn deillio o bren; a

(b) yn asesu a yw'r ffynhonnell yn bodloni'r meini prawf perthnasol.

## 8. HAWL CNC I WRTHOD COED

8.1 Mae CNC yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw Goed nad ydynt yn cydymffurfio â'r Gorchymyn Contract neu'r meini prawf ym mharagraff 5.1.

8.2 Lle mae CNC yn arfer ei hawl i wrthod unrhyw Goed, rhaid i'r Contractwr gyflenwi Coed yn eu lle, sy'n cydymffurfio'n briodol, heb unrhyw gost ychwanegol i CNC a heb achosi oedi i gyfnod cwblhau'r Contract.

8.3 Rhaid archwilio'r rheolaeth ar y goedwig neu'r blanhigfa bob hyn y hyn i gadarnhau rheolaeth goedwig dda barhaus a rhaid i hynny gael ei wneud gan sefydliadau sydd â phrofiad priodol o reoli coedwigoedd, sy'n annibynnol ar y sefydliad sydd â'r hawliau cynaeafu coed a/neu rheoli ar gyfer y goedwig honno.

8.4 Bydd CNC yn derbyn tystiolaeth o unrhyw un o'r categorïau canlynol:

8.4.1 Tystiolaeth Categori A: Ardystiad o dan gynllun sy'n cael ei gydnabod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig fel un sy'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y ddogfen sy'n dwyn y teitl "*UK Government Timber Procurement Policy: Criteria for Evaluating Certification Schemes (Category A Evidence)*" (ar gael oddi wrth yr Awdurdod Contractio drwy ofyn neu oddi ar wefan CPET) sy'n adlewyrchu'r meini prawf o ran 'cyfreithiol' a 'chynaliadwy' a nodwyd yn y ddogfen sy'n dwyn y teitl "*UK Government Timber Procurement Policy, Definition of Legal and Sustainable for Timber Procurement*" (ar gael ar wefan CPET). Yr argraffiad sydd mewn grym ar ddiwrnod dyfarnu'r contract fydd yr un cymwys. Mae rhestr o gynlluniau ardystio sydd wedi'u hasesu, sy'n bodloni gofynion y llywodraeth ar hyn o bryd, ar gael ar wefan CPET. Rhaid i gynlluniau derbyniol sicrhau bod o leiaf 70% (yn ôl cyfaint neu bwysau) o ffynhonnell Gyfreithiol a Chynaliadwy a bod y gweddill o ffynhonnell gyfreithiol.

8.4.2 Tystiolaeth Categori B: Tystiolaeth ddogfennol, ar wahân i dystiolaeth Categori A a thystiolaeth FLEGT (neu gyfatebol), sy'n rhoi sicrwydd fod y ffynhonnell yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y ddogfen sy'n dwyn y teitl "*UK Government Timber Procurement Policy: Framework for Evaluating Category B Evidence*" (ar gael oddi wrth yr Awdurdod Contractio drwy ofyn neu oddi ar wefan CPET), sy'n adlewyrchu'r meini prawf o ran 'cyfreithiol' a 'chynaliadwy' a nodwyd yn y ddogfen "*UK Government Timber Procurement Policy, Definition of Legal and Sustainable for Timber Procurement*". Yr argraffiad sydd mewn grym ar ddiwrnod dyfarnu'r contract fydd yr un cymwys. Gall tystiolaeth Categori B o'r fath gynnwys, er enghraifft, archwiliadau annibynnol a datganiadau gan y Contractwr neu'i gyflenwyr.

Lle byddir yn dibynnu ar dystiolaeth Categori B, mae'n ofynnol i'r Contractwr hysbysu'r Awdurdod Contractio am ffynhonnell neu ffynonellau'r holl goed gwyryfol a chynnyrch yn deillio o bren a gyflenwir. Yn y cyd-destun hwn mae ffynhonnell yn golygu'r goedwig neu'r blanhigfa lle tyfwyd y coed a'r holl fannau danfon dilynol ar hyd y gadwyn gyflenwi cyn i'r coed neu'r cynnyrch yn deillio o bren gyrraedd yr Awdurdod Contractio. Rhaid i'r Contractwr nodi ar wahân y coed gwyryfol a'r cynnyrch yn deillio o bren a gyflenwyd o goedwigoedd a phlanhigfeydd yr honnir eu bod yn cynhyrchu coed yn gynaliadwy a rhaid iddo gyflwyno dogfennau i'r Awdurdod Contractio am bren o'r fath i gadarnhau bod y meini prawf ar gyfer cynhyrchu coed yn gynaliadwy a bennir yn y fanyleb hon wedi'u bodloni. Os nad oes modd

peidio â chymysgu o fewn y gadwyn gyflenwi, gellir derbyn ffynonellau o hyd cyhyd â bo mesurau rheoli digonol ar waith a bod o leiaf 70% (yn ôl cyfaint neu bwysau) o ffynhonnell Gyfreithiol a Chynaliadwy a bod y gweddill o ffynhonnell gyfreithiol.

8.4.3 Tystiolaeth FLEGT, o'r naill neu'r llall o'r categorïau isod, neu o'r ddau gategori:

(a) Tystiolaeth o goed a chynnyrch yn deillio o bren yn cael ei allforio o wlad sy'n cynhyrchu coed ac sydd wedi llofnodi Cytundeb Partneriaeth Gwirfoddol FLEGT (*Forest Law Enforcement, Governance and Trade*) dwyochrol gyda'r Undeb Ewropeaidd a'u bod wedi cael eu trwyddedu i'w hallforio gan lywodraeth y wlad gynhyrchu. Gallai tystiolaeth sy'n cyfateb i drwydded FLEGT (at ddibenion y diffiniad o Gynaliadwy) gynnwys Coed a chynnyrch yn deillio o bren sydd wedi'u cael eu gwirio'n annibynnol fel rhai sy'n bodloni holl ofynion y wlad gynhyrchu am drwydded FLEGT (maes o law), lle'r ymrwymwyd i Gytundeb Partneriaeth Gwirfoddol ond nad yw system drwyddedu FLEGT yn llwyr weithredol eto, neu

(b) Tystiolaeth o wlad nad yw wedi ymrwymo i Gytundeb Partneriaeth Gwirfoddol sy'n dangos bod yr holl ofynion sy'n cyfateb i goed â thrwydded FLEGT wedi cael eu bodloni.

Gall Coed a chynnyrch yn deillio o bren â thrwydded FLEGT sydd wedi'u prosesu mewn trydedd wlad fod yn dderbyniol hefyd, cyhyd â'u bod yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r diffiniad o Gyfreithiol a Chynaliadwy yn y Polisi Caffael Coed (lle gall cyfatebiaeth â thrwydded FLEGT fod yn dystiolaeth o fodloni'r diffiniad o Gynaliadwy).

## 9. GWEITHREDWYR LLIF GADWYN

9.1 Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio bob amser â'r holl gyfraith cyflogaeth a hefyd â'r canlynol:-

9.1.1 Rhaid i weithredwyr llif gadwyn sy'n gweithio ar dir CNC feddu un ai ar dystysgrif(au) cymhwysedd gyfredol a roddwyd gan gorff dyfarnu cymeradwy neu ar yr unedau neu'r cymwysterau cyfatebol cyfredol o fewn Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol cydnabyddedig neu Gymhwyster Galwedigaethol cyfatebol yn yr Alban. Yn ystod hyfforddiant atgyfnerthu cyn

asesiad llawn yn erbyn safon genedlaethol mae "Cofnod Hyfforddiant a Chyflawniad" dilys neu gymwysterau a roddwyd gan FISA (*Forestry Industry Safety Accord*) neu gymhwyster cyfatebol gan unrhyw gorff a fydd o bryd i'w gilydd yn ei ddisodli yn gadarnhad interim derbyniol o gymhwysedd;

9.1.2 Caiff unrhyw linellau trydan uwchben yn yr ardal a gwmpasir gan y Contract eu dangos ar y Map Contract. Caiff yr asiant sy'n gyfrifol am unrhyw linell drydan uwchben a ddangosir ar y Map Contract ei restru yn yr Atodlen. Ni chaniateir ar unrhyw adeg i unrhyw un weithio o fewn hyd dwy goeden i linell drydan neu bŵer uwchben oni bai ei fod wedi cydymffurfio â'r mesurau rheoli penodol a bennir yng nghanllawiau perthnasol FISA o bryd i'w gilydd (neu unrhyw ganllawiau cyfatebol a roddir gan unrhyw gorff sy'n disodli FISA o bryd i'w gilydd). Bydd gan CNC yr hawl ar unrhyw adeg i fynnu bod unrhyw un sy'n gweithio o fewn hyd 2 goeden i linell drydan uwchben yn stopio gweithio ar unwaith onid oes ganddo un ai Ddogfen Diogelwch Safle ddilys neu Drwydded Waith, y naill a'r llall fel a bennwyd yng nghanllawiau perthnasol FISA. Rhaid i weithredwyr ar safleoedd sy'n cynnwys llinellau trydan uwchben fod â Chanllawiau Diogelwch cymwys perthnasol FISA neu ganllawiau cyfatebol gan unrhyw gorff sy'n ei ddisodli o bryd i'w gilydd.

10. **IS-GONTRACTWYR**

10.1 Rhaid i'r Contractwr barhau'n atebol am y ffordd y cyflawnir ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn er iddo benodi is-gontractwr neu asiant awdurdodedig i gyflawni unrhyw rai ohonynt. Bydd unrhyw weithred neu anwaith gan unrhyw is-gontractwr neu asiant i'r Contractwr, neu gan unrhyw un o weithwyr y Contractwr neu unrhyw is-gontractwr o'r fath neu weithiwr, yn cael ei hystyried yn weithred neu anwaith gan y Contractwr a'r Contractwr fydd yn gyfrifol am hynny felly a rhaid iddo indemnio CNC rhag unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir gan CNC yn deillio o unrhyw weithred neu anwaith gan y cyfryw is-gontractwyr, asiantau neu weithwyr.

10.2 Bydd gan CNC hawl drwy roi 24 awr o rybudd, ac eithrio mewn argyfwng lle daw ei hawl i rym ar unwaith, i roi feto ar unrhyw gontractwr nad yw CNC yn ei ystyried yn addas i gyflawni rhwymedigaethau'r Contract hwn. Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod y cyfryw gontractwr neu is-gontractwr yn rhoi'r gorau ar unwaith i unrhyw weithgareddau ac yn gadael y Safle Gwaith a'r Llwybrau Mynediad Awdurdodedig. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd cymeradwyaeth flaenorol gan CNC i is-gontractwr o'r fath yn rhagfarnu hawliau CNC o dan y paragraff 10.2 hwn.

## ATODLEN 3

## PROSESU DATA PERSONOL

Mae'r atodlen hon yn nodi cwmpas, natur a diben prosesu data personol gan y contractwr ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru y cyfeirir atynt yng Nghymal 13.4.1.Gall y contractwr ond prosesu data personol ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â gofynion Cymal 13 a'r atodlen hon.

1. **CWMPAS, NATUR A DIBEN PROSESU**

1.1 Gall y contractwr brosesu data personol er mwyn [nodwch sut gall y contractwr brosesu data personol, diben y prosesu hwnnw ac unrhyw gyfyngiadau ar y prosesu a all gael ei gynnal]

2. **HYD Y PROSESU**

2.1 Gall y contractwr brosesu data personol am [hyd cyfnod y contract] [cyfnod o **X** diwrnod/wythnos/mis o'r dyddiad dechrau] [cyfnod penodol]

3. **Y MATHAU O DDATA PERSONOL**

3.1 Gall y contractwr brosesu data personol o'r mathau canlynol:

(a) [manylion personol]

(b) [teulu, ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol]

(c) [manylion ariannol]

(d) [manylion cyflogaeth ac addysg]

(e) [nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd]

3.2 [Ni all y contractwr brosesu data personol sensitif] [Gall y contractwr brosesu data personol sensitif o'r mathau canlynol:

(a) [manylion iechyd corfforol neu feddwl]

(b) [tarddiad hil neu ethnig]

(c) [credoau crefyddol neu athronyddol]

(d) [aelodaeth o undebau llafur]

(e) [safbwyntiau gwleidyddol]

(f) [data genetig]

(g) [data biometrig]

(h) [bywyd rhyw a thueddfryd rhywiol]]

## 4. CATEGORÏAU GWRTHRYCH DATA

4.1 Gall y Contractwr brosesu data personol sy'n ymwneud â'r canlynol sy'n gysylltiedig â Cyfoeth Naturiol Cymru:

(a) [gweithwyr]

(b) [cwsmeriaid a chleientiaid]

(c) [cyflenwyr a darparwyr gwasanaethau]

(d) [ymgynghorwyr ac arbenigwyr proffesiynol eraill]

(e) [achwynyddion ac ymholwyr].